

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Darparu Mannau Diogel i Chwarae
a Chymdeithasu

Tachwedd 2010



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8149
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Children.&YoungPeopleCommittee@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Darparu Mannau Diogel i Chwarae
a Chymdeithasu

Tachwedd 2010



Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Penodwyd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru ac adrodd yn ôl ar y materion hynny.

Yn bennaf, gall y Pwyllgor archwilio gwariant, gweinyddiad a pholisi Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus cysylltiedig ac ystyried adroddiadau Comisiynydd Plant Cymru.

Yn aml, nid yw oedolion yn cymryd barn plant a phobl ifanc o ddifrif. Fel gwleidyddion, ein cyfrifoldeb ni yw annog plant a phobl ifanc i leisio eu barn ac i ninnau wrando arnynt. Sefydlwyd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i helpu i wneud hynny.

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 16 Hydref 2007 pan gafodd cynnig i'w sefydlu ei gymeradwyo mewn Cyfarfod Llawn. Bydd yn bodoli drwy gydol y Trydydd Cynulliad. Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig yn Rheol Sefydlog 21. Mae'r rhain ar gael yn www.cynulliadcymru.org.

Aelodau Cyfredol y Pwyllgor



**Helen Mary Jones
(Cadeirydd)**
Llanelli
Plaid Cymru



Eleanor Burnham
Gogledd Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol
Cymru



Sandy Mewies
Delyn
Llafur



Jonathan Morgan
Gogledd Caerdydd
Plaid Geidwadol Cymru



Joyce Watson
Canolbarth a Gorllewin
Cymru
Llafur

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Angela Burns
Gorllewin Caerfyrddin a
De Sir Benfro
Plaid Geidwadol Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion y Pwyllgor	6
Cyflwyniad	11
Pam y penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad i'r ddarpariaeth o fannau diogel i chwarae a chymdeithasu?.....	11
Sut y cynhaliodd y Pwyllgor ei ymchwiliad?.....	13
Y Cylch Gorchwyl	14
Y prif themâu a materion a ddaeth i'r amlwg yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor	16
Blaenoriaeth strategol chwarae	16
Y Mesur ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010	16
Y Strategaeth Polisi Chwarae a Chynllun Cyflenwi'r Polisi Chwarae ...	20
Sut mae awdurdodau lleol yn cydgysylltu cyfleoedd chwarae	21
Cefnogaeth awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth wirfoddol.....	25
Cynaliadwyedd cyllideb chwarae'r Loteri Fawr	26
Cynllunio a diogelwch ar y ffordd	27
Traffig	27
Parthau cartrefi a phrosiectau addasu strydoedd ar y cyd â thrigolion	30
Cynllunio ar gyfer anghenion yr holl gymuned	33
Cytundebau Adran 106	37
Canllawiau a pholisi cynllunio	39
Effaith Ofn	42
Ysbwriel a fandaliaeth	42
Iechyd a Diogelwch	43
Perygl dieithriad	45
Stereoteip negyddol o blant a phobl ifanc	49
Bwlio	55
Trafnidiaeth	60

Mynd i'r afael ag anghenion chwarae grwpiau penodol o blant a phobl ifanc.....	63
Plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig	63
Plant anabl.....	66
Plant a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd difreintiedig	70
Plant Sipsiwn-Teithwyr.....	72
Rôl ysgolion	73
Tystion	77
Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig	81

Rhagair y Cadeirydd

“Yr hawl i chwarae yw hawliad cyntaf y plentyn ar y gymuned. Chwarae yw hyfforddiant natur ar gyfer bywyd. Ni all unrhyw gymuned amharu ar yr hawl hwnnw heb wneud difrod parhaol i feddyliau a chyrff ei dinasyddion.” David Lloyd George

Efallai bod chwarae yn ymddangos yn ddisylwedd i rai ond, mewn gwirionedd, mae'n hanfodol bwysig bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i ymlacio, archwilio'r byd o'u hamgylch a gwthio ffiniau drwy chwarae.

Mae gan bawb ohonom atgofion melys o'r amser y buom yn ei dreulio'n chwarae pan oeddem yn blant ac yn bobl ifanc. Yn wir, cawsom ein hatgoffa yn ystod yr ymchwiliad hwn bod angen i ni fel oedolion gael amser i ymlacio a chwarae, pe bai hynny'n drip i'r sinema neu dreulio amser ymysg ffrindiau.

Fel oedolion, rhaid i ni alluogi plant a phobl ifanc yn ein cymdeithas i fwynhau'r pleserau syml a geir wrth chwarae, cymdeithasu a threulio amser ymysg ffrindiau. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n mynd drwy'r broses o wneud Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gyfraith yng Nghymru, ac mae'r Confensiwn yn datgan bod gan blant yr hawli amser hamdden. Mae'r adroddiad hwn yn trafod y rhwystrau yn ein cymdeithas sy'n atal yr hawl hwn rhag bod yn realiti ar gyfer plant a phobl ifanc ym mhob rhan o Gymru.

Mae'r 26 o argymhellion a gaiff eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn ymwneud ag amrywiaeth eang o faterion fel trafndiaeth, cynllunio ac anghenion grwpiau penodol o blant a phobl ifanc. Yn ogystal â derbyn yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi'n fanwl yn ei hymateb sut y bydd yn ymateb i bob her.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am yr amser mae wedi'i gymryd i dros 2700 o blant a phobl ifanc sydd wedi cyfrannu at y prosiect 'chdi sy'n bwysig' a roddodd gychwyn i'r ymchwiliad hwn. Rhaid i ni ddiolch, hefyd, i bron i 1200 o blant a phobl ifanc a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn, ynghyd â rhanddeiliaid eraill a darparwyr chwarae. Gobeithio y bydd eich profiadau chi yn ein helpu i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau plant a phobl ifanc ym mhob rhan o Gymru.

Helen Mary Jones AC

Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i gwblhau ei hadolygiad o'r safonau a'r canllawiau ar gyfer chwarae cyn gynted â phosibl i alluogi awdurdodau lleol i asesu digonolrwydd eu darpariaeth chwarae bresennol ac i wneud cynlluniau cadarn ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol. Dylai'r canllawiau gynnwys diffiniad clir o 'chwarae' sy'n cynnwys chwarae wedi'i strwythuro a chwarae dirwysr, fel y caiff ei ddisgrifio ym mharagraff 25 o'r adroddiad hwn.

(Tudalen 20)

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad byr wedi'i ffocysu ar gynllun gweithredu'r polisi chwarae, i'w gwblhau cyn yr etholiad nesaf ac a fydd yn cynnwys rhanddeiliaid allanol. Dylai canlyniadau'r adolygiad gofnodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn a gwneud argymhellion i'r Dirprwy Weinidog a fydd yn ei gynorthwyo i ailffocysu'r cynllun ar y manau hynny sy'n ddilys o hyd yng ngoleuni deddfwriaeth ddiweddar a'r angen mwy nag erioed i flaenoriaethu sut y cyflenwir gwasanaethau cyhoeddus.

(Tudalen 21)

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau diwygiedig mewn perthynas â phartneriaethau plant a phobl ifanc sy'n ailddatgan rôl ganolog y partneriaethau wrth ddatblygu ymagweddau strategol a chefnogi sut y cyflenwir y ddarpariaeth chwarae a hamdden. Dylai'r canllawiau ei gwneud yn orfodol i adrannau pob awdurdod lleol ac asiantaethau perthnasol ddangos yn llawn eu bod yn ymgysylltu â'r broses bartneriaeth.

(Tudalen 25)

Argymhelliad 4. Yng ngoleuni'r dystiolaeth sy'n dangos cyfradd uwch o anafiadau a marwolaethau o ganlyniad i ddamweiniau traffig ar y ffordd ymysg plant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ailffocysu ei hymdrechion i fynd i'r afael ag anafiadau i blant sy'n cerdded ar y ffordd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dylai hyn sicrhau gwelliant yn nangosyddion 15 ac 16 o Gerrig Milltir a Thargedau Tlodi Plant Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag anafiadau i unigolion rhwng 5 a 14 oed wrth iddynt gerdded ar y ffordd.

(Tudalen 30)

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod diogelwch ar y ffordd yn cael ei gynnwys yn y cwricwlwm Cymreig. (Tudalen 30)

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y partneriaethau plant a phobl ifanc yn gwneud mwy o gyfraniad ac yn chwarae rhan fwy cyson yn y gwaith o yrru anghenion ac ymgysylltiad plant a phobl ifanc yn eu blaenau yn y broses cynllunio. Dylai adrannau cynllunio weithio gyda'r partneriaethau i ddatblygu ffyrdd ymarferol i sicrhau y rhoddir y pwyslais priodol ar y ffaith bod ar blant a phobl ifanc angen cael manau diogel i chwarae a chymdeithasu o fewn y prosesau a'r penderfyniadau cynllunio. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymhell bod yr Uned Cefnogi Partneriaethau yn casglu enghreifftiau o arfer da wrth gyfranogi at brosesau cynllunio ac yn dosbarthu'r wybodaeth honno i'r holl bartneriaethau mewn modd ystyrlon. (Tudalen 35)

Argymhelliad 7. Dylai'r canllawiau a gyhoeddir o ganlyniad i'r Mesur ynghylch Plant a Phobl Ifanc (Cymru) gynnwys canllawiau ar arferion da wrth ymgynghori sy'n nodi'r angen i roi'r holl ffeithiau sydd ar gael i'r ymgynghoreion, gan gynnwys gwybodaeth gyllidebol, a'r angen i roi gwybod i ymgynghoreion am unrhyw benderfyniadau a wneir o ganlyniad i'r ymgynghoriad a'r rhesymau drostynt. (Tudalen 36)

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai canllawiau statudol sy'n gysylltiedig â'r Mesur ynghylch Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2010 nodi y dylai plant a phobl ifanc gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar draws ystod eang o adrannau awdurdodau lleol. Ni ddylid ei gyfyngu i'r adrannau hynny sy'n ymwneud i raddau helaeth â phlant a phobl ifanc, er enghraifft, addysg a gwasanaethau cymdeithasol; yn hytrach, dylai hyn gynnwys adrannau cynllunio, trafndiaeth a thai, er enghraifft. Er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn ffordd ystyrlon, dylai canllawiau ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gefnogi adeiladu capasiti ar gyfer pobl ifanc. Dylai'r gwaith cymorth hwn ymestyn y tu hwnt i fforymau ieuencid er mwyn annog awdurdodau lleol i ymgysylltu ag ystod mor eang â phosibl o blant a phobl ifanc. (Tudalen 37)

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Polisi Cynllunio Cymru 3 a Nodiadau Cyngor Technegol 12 (Dylunio) a 18 (Trafndiaeth), sy'n ei ategu, er mwyn sicrhau ei fod yn ofyniad mwy penodol bod yn rhaid i'r defnydd o'r canllawiau ar

ddarpariaeth chwarae yn 'Manual for Streets' fod yn rhan hanfodol o unrhyw waith dylunio ar gyfer cymunedau. (Tudalen 40)

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod awdurdodau lleol, am resymau ariannol, yn targedu'r defnydd o oleuadau stryd, gan flaenoriaethu llwybrau i ardaloedd chwarae. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod systemau goleuo yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau ar gyfer cyfleusterau chwarae, yn enwedig y rheini ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc y mae'n gwbl resymol iddynt fod allan wedi iddi nosi. (Tudalen 41)

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod awdurdodau lleol yn siarad â phlant a phobl ifanc i fonitro'r mater o lendid a threfn ac i ffocysu adnoddau glanhau a chynnal a chadw ar fannau sy'n peri problemau. (Tudalen 42)

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n datblygu cyfres o ganllawiau iechyd a diogelwch ar gyfer lleoliadau chwarae sy'n caniatáu chwarae anturus. Dylid datblygu'r rhain mewn ymgynghoriad â darparwyr chwarae, plant a phobl ifanc a rhanddeiliaid eraill. (Tudalen 45)

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda rhanddeiliaid eraill i adolygu buddiannau lansio ymgyrch newydd i helpu plant a rhieni i reoli risgiau, i adnabod sefyllfaoedd allai fod yn beryglus ac i wybod sut i gadw eu hunain yn ddiogel yn y cartref a'r tu allan iddo heb amharu ar ryddid a phrofiadau plant a phobl ifanc. (Tudalen 47)

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei gwaith rhwng y cenedlaethau'n cael ei wneud ar draws adrannau i sicrhau y ceir mewnbwn o'r gwaith polisi plant a phobl ifanc perthnasol, yn ogystal â datblygiad polisi pobl hŷn. (Tudalen 49)

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n adolygu sut y gellir cynnwys gwaith rhwng y cenedlaethau yn y cwricwlwm ar gyfer ysgolion, er mwyn gwneud y mwyaf o'r rhyngweithio rhwng y cenedlaethau mewn ffordd gadarnhaol. (Tudalen 55)

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cynnal pedair uwchgyhadledd ranbarthol ar gyfer y cyfryngau a ddylai geisio chwalu'r mythau ymysg y cyfryngau ynghylch plant a phobl ifanc ac a ddylai ddangos yr effaith negyddol y mae storiâu newyddion

negyddol ynghylch plant a phobl ifanc yn ei gael ar yr holl gymuned. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU i archwilio buddiannau cynnal uwchgynadleddau tebyg ar gyfer y cyfryngau ledled y DU.

(Tudalen 55)

Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr ymagweddau a'r dulliau y gellir eu rhoi ar waith i leihau'r achosion o fwlio y tu allan i'r ysgol, ac i gefnogi'r rheini sy'n cael eu bwlio. Dylai adolygiad o'r fath dalu sylw penodol i blant a phobl ifanc anabl sy'n cael eu bwlio. Mae'r Pwyllgor hefyd yn galw ar Lywodreth Cymru i gadarnhau'r amserlen ar gyfer cyhoeddi ei chanllawiau gwrth-fwlio, y bwriadwyd eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2009.

(Tudalen 59)

Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn darparu cyfleoedd chwarae o dan oruchwyliaeth ar gyfer plant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau. Dylid ystyried hyfforddiant ar gyfer goruchwylwyr chwarae hefyd i gael gwared ar unrhyw gamddealltwriaeth ynghylch arferion myfyriol allai olygu diffyg gweithredu yn erbyn bwlio mewn lleoliadau chwarae.

(Tudalen 59)

Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n blaenoriaethu'r ddarpariaeth o brisiau rhatach ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer unigolion rhwng 16 a 18 oed i'w galluogi i ddefnyddio cyfleusterau hamdden yn ogystal â manteisio ar y cyfleoedd addysgol a hyfforddiant yn eu hardal ehangach.

(Tudalen 63)

Argymhelliad 20. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ailasesu'r system drafnidiaeth gyhoeddus bresennol yn erbyn anghenion plant a phobl ifanc, ynghyd ag anghenion defnyddwyr eraill. Os bydd yr ailasesiad yn amlygu problemau systemig yn y ddarpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru, yna dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau pellach i sicrhau bod y materion hynny'n cael eu datrys.

(Tudalen 63)

Argymhelliad 21. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau nad yw disgyblion yn cael eu hallgáu o weithgareddau allgyrsiol oherwydd anawsterau sy'n gysylltiedig â sicrhau cludiant gartref ar ddiwedd y dydd

(Tudalen 63)

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i geisio sicrhau bod yr holl gyfleoedd chwarae prif ffrwd sydd ar gael yn gynhwysol, er y

dylid sicrhau bod darpariaeth chwarae arbenigol ar gael hefyd i'r plant a'r bobl ifanc anabl sy'n gwneud cais amdano Wrth asesu anghenion gofalwyr plant a phobl ifanc anabl, dylid ystyried unrhyw gymorth y gallai fod ei angen ar ofalwyr i alluogi plant anabl i ddefnyddio'r cyfleoedd chwarae hyn. (Tudalen 69)

Argymhelliad 23. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau priodol i sicrhau bod y rhwymedigaethau statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol bod pob adeilad cyhoeddus newydd yng Nghymru yn gwbl hygyrch yn cael eu bodloni, a bod nodweddion hygyrch yn cael eu hôl-osod ym mhob adeilad cyhoeddus lle a phryd y mae hynny'n bosibl. (Tudalen 69)

Argymhelliad 24. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod strwythurau prisio awdurdodau lleol yn cael eu newid i ddarparu cyfleoedd chwarae a hamdden am ddim, lle y bo hynny'n bosibl. Dylid darparu tocynnau teulu hefyd, y mae eu prisiau'n adlewyrchu nifer yr oedolion, yn ogystal â nifer y plant, sydd mewn teulu. (Tudalen 72)

Argymhelliad 25. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried anghenion chwarae plant a phobl ifanc Sipsiwn-Teithwyr yn ei strategaeth ar gyfer Sipsiwn-Teithwyr. Dylid datblygu cynlluniau datblygu chwarae ar y cyd â phlant a phobl ifanc Sipsiwn-Teithwyr, a'u rhieni. Ar ben hynny, dylai canllawiau cynllunio a gyhoeddir mewn perthynas â datblygiadau safleoedd Sipsiwn-Teithwyr gynnwys gofyniad gorfodol i ddarparu cyfleoedd chwarae ar bob safle. (Tudalen 73)

Argymhelliad 26. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad ar y rhan y mae ysgolion bro a'r holl ysgolion a gynhelir yn ei chwarae wrth gefnogi cyfleoedd chwarae a hamdden diogel, gyda'r nod o fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd y gall ysgolion eu cynnig i gymunedau chwarae a chymdeithasu. Dylai'r adolygiad gynnwys ystyriaeth o'r materion sy'n ymwneud â safleoedd, cyllid, integreiddio â darpariaeth leol a modelau o arfer da gyda'r nod o fanteisio'n llawn ar y cyfle i rannu cyfleusterau. (Tudalen 75)

Cyflwyniad

Pam y penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad i'r ddarpariaeth o fannau diogel i chwarae a chymdeithasu?

1. Yn ystod haf 2009, cynhaliodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc brosiect cymryd rhan o'r enw "Chdi sy'n bwysig". Gofynnwyd i blant a phobl ifanc lenwi papur balot yn amlinellu'r materion yr oeddent yn credu y dylai'r Pwyllgor eu harchwilio yn y dyfodol.


2. Hyrwyddwyd y prosiect ymgysylltu drwy ddatganiadau i'r wasg, gyda 'Dewi'r Ddraig' yn ymuno ag Aelodau'r Pwyllgor ar daith o gwmpas Maes yr Urdd a Sioe Frenhinol Cymru, i annog pobl ifanc i gymryd rhan.




3. Cyflwynodd dros 2,700 o blant a phobl ifanc bapur balot.

Dangosir canlyniadau'r bleidlais yn niagram 1.

4. Roedd y papurau balot yn gofyn i'r pleidleiswyr amlygu unrhyw faterion ychwanegol a oedd yn peri pryder iddynt na restrwyd yn y papur. Dangosir y rhain yn niagram 2.



Ffigur 1: canlyniadau pleidlais gyfan y prosiect "Chdi sy'n bwysig"



Ffigur 2: Materion ychwanegol (4% o'r bleidlais) a godwyd yn ystod y prosiect "Chdi sy'n bwysig"

5. Y tri phrif beth a oedd yn peri pryder i bleidleiswyr ifanc oedd:
 - yr amgylchedd;
 - manau diogel i chwarae a chymdeithasu; a
 - phryderon ariannol.
6. Cyfeiriodd y Pwyllgor y mater cyntaf a'r mater olaf at Bwyllgorau eraill y Cynulliad. Yna, cytunodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i gynnal ymchwiliad i'r ddarpariaeth o fannau diogel i chwarae a chymdeithasu yng Nghymru er mwyn gwneud argymhellion ynghylch sut y gallai Llywodraeth Cymru wella'r ddarpariaeth. Bydd y gyfran fwyaf o faterion ychwanegol a amlygwyd yn y bleidlais - 'ofni pobl eraill' ac 'ysbwriel a fandaliaeth' - yn cael eu cynnwys yn yr ymchwiliad.

Sut y cynhaliodd y Pwyllgor ei ymchwiliad?

7. Lansiodd yr ymchwiliad ym mis Rhagfyr 2009 yn Llwynhendy, Llanelli, lle y clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan blant sy'n mynd i ysgolion lleol: Ysgol Brynteg ac Ysgol Brynsierfel.
8. Cyhoeddodd y Pwyllgor holiadur ar gyfer plant a phobl ifanc i holi am eu profiadau a'u hofnau wrth fanteisio ar gyfleoedd chwarae a / neu gymdeithasu. I annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn yr ymchwiliad, gwnaeth y Pwyllgor hefyd:
 - gwrdd â phlant a phobl ifanc ledled Cymru i siarad â nhw yn uniongyrchol;
 - cynnal gweithdy ar gyfer plant anabl, gofalwyr ifanc, plant sy'n ceisio lloches ac eraill yng ngogledd Cymru;
 - cynnal cyfarfod agored yng ngogledd Cymru ar gyfer aelodau'r gymuned ehangach i alluogi pobl i rannu eu profiadau a'u barn â'r Pwyllgor;
 - ymweld â nifer o safleoedd sy'n darparu manau chwarae, fel Maes Chwarae Antur y Rhyl;
 - annog plant a phobl ifanc i anfon tystiolaeth ar fideo at y Pwyllgor;
 - croesawu rhai pobl ifanc, gyda chefnogaeth y Ddraig Ffyndi, i'r Senedd i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor. Cynhaliodd Tîm Addysg y Cynulliad weithdai â phlant a phobl ifanc ar ein rhan hefyd.
9. Galwodd y Pwyllgor hefyd am dystiolaeth ysgrifenedig gan randdeiliaid allanol a chynhaliodd wyth o sesiynau ffurfiol i gasglu

tystiolaeth, gan gasglu mwy na 11 awr o dystiolaeth lafar. Cafwyd tystiolaeth lafar gan:

- Y Dirprwy Weinidog dros Blant;
- Chwarae Cymru;
- Comisiynydd Plant Cymru;
- Barnardo's Cymru;
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Cyngor Chwaraeon Cymru;
- Grŵp Gweithredu Ieuencid y Rhyl;
- Clwb Ieuencid Iwth Pen;
- Clwb Pêl-droed y Rhyl;
- Plant yng Nghymru;
- Fairbridge Cymru;
- Sustrans;
- Yr Heddlu a Phartneriaethau ar gyfer Gweithredu Cymunedol (PACT);
- Sefydliad Beth Johnson;
- Co-Train;
- Y Gronfa Loteri Fawr;
- Sgowtiaid Cymru.

10. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r holl dystion am gyfrannu at yr ymchwiliad hwn.

Y Cylch Gorchwyl

11. Dyma gylch gorchwyl yr ymchwiliad:

Ymchwilio i brofiadau plant (11 oed neu iau) a phobl ifanc (rhwng 11 a 18 oed) yng Nghymru, wrth gael mynediad i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu.

Bydd yr ymchwiliad yn:

Ystyried materion sy'n effeithio ar brofiadau chwarae grwpiau penodol o blant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig;

- plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig ac sydd o gartrefi incwm isel;
- plant a phobl ifanc anabl;
- plant a phobl ifanc sy'n perthyn i grwpiau ymylol, fel y gymuned Sipsiwn-Teithwyr.

Adolygu'r materion sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth bresennol, gan gynnwys:

- cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth;
- yr hyn y gellir ei wneud i wella diogelwch a'r ymdeimlad o ddiogelwch, wrth ddefnyddio adnoddau chwarae a hamdden cymunedol presennol;
- costau darparu mynediad, gan gynnwys costau cludiant.

Adolygu effeithiolrwydd y polisiau a'r mentrau presennol i ddarparu manau diogel i chwarae a chymdeithasu, gan gynnwys:

- Polisi Chwarae Llywodraeth y Cynulliad, a Chynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae;
- effeithiau posibl y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru);
- y gwasanaethau ieuenctid a hamdden sydd ar gael ar hyn o bryd;
- y polisi cynllunio, a rhoi'r polisi ar waith;
- y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a weithredir gan Lywodraeth Cymru;
- rôl ysgolion ac, yn benodol, ysgolion bro;
- parthau cartrefi;
- mentrau diogelwch cymunedol, gan gynnwys yr Heddlu a Chymunedau Ynghyd (PACT).

Archwilio effaith y rhwystrau penodol i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu, gan gynnwys:

- bwlio;
- stereoteip negyddol o blant a phobl ifanc / canfyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- materion traffig a diogelwch ar y ffordd.

Y prif themâu a materion a ddaeth i'r amlwg yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor

12. Ar ôl cynnal yr ymchwiliad, gall y Pwyllgor yn awr ddarparu cyfres o gasgliadau ac argymhellion ar sail tystiolaeth i Lywodraeth Cymru, ac i sefydliadau/unigolion perthnasol eraill. Ceir crynodeb o'n hargymhellion ar dudalenau 6 i 10.

13. Cytunodd y tystion fod mynediad digonol i gyfleoedd chwarae a hamdden yn hanfodol i blant a phobl ifanc. Datganodd Chwarae Cymru:

“Playing contributes to the wellbeing and resilience of human beings - particularly young ones. Having welcoming places, enough time and the company of others to play with every day, is of great consequence to all children and young people - as adults we need to foster environments that support this.”

14. Ystyriodd y Pwyllgor y chwe phrif fater a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad. Y rhain oedd:

- blaenoriaeth strategol chwarae;
- cynllunio a diogelwch ar y ffordd;
- effaith ofn;
- trafnidiaeth;
- mynd i'r afael ag anghenion grwpiau penodol o blant a phobl ifanc;
- rôl ysgolion.

Caiff y rhain eu hystyried yn y rhannau a ganlyn o'r adroddiad.

Blaenoriaeth strategol chwarae

Y Mesur ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

15. Mae'r Mesur, a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ym mis Chwefror 2010, yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol i gynnal archwiliad chwarae a sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae yn ei ardal ar gyfer plant, i'r graddau bod hynny'n rhesymol ymarferol.

16. Mae'r Mesur hefyd yn rhoi dyletswydd ar ddarparwyr chwarae i weithredu yn unol â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995. Trafodir anabledd yn fwy manwl mewn pennod arall.¹

17. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd chwarae. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor ym mis Ionawr 2010:

“We were the first legislature in the United Kingdom, and probably in the world, to have a proper joined up play policy. We are now moving into a new era of development with the Proposed Children and Families (Wales) Measure that is soon to be enacted, which specifically legislates for play. The development of that legislation, how it rolls out, the guidance that emerges as a result of it, and how we work with our partners, particularly in the statutory and voluntary sectors, will be crucial to how the agenda develops. So, the commitment is there and it is now a matter for us to grasp the legislative framework that will be available to us to pursue the agenda.”²

18. Mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth yn y gorffennol sy'n dangos ei bod yn ymddangos bod awdurdodau lleol yn rhoi blaenoriaeth isel iawn i chwarae. Dywedodd y Lloerwr Fawr wrth y Pwyllgor:

“Last year our applicants and grant holders were telling us that play is not necessarily seen as being the business of local government, partly because in Wales, traditionally, it has been taken forward by the third sector...The advent of the Measure in particular, and the requirement to plan and provide an audit of play provision, should knock that up the agenda in local authorities considerably”³

19. Nododd y Dirprwy Weinidog y byddai Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod awdurdodau lleol yn dod yn fwy ymwybodol o chwarae drwy ofyn cwestiynau dyrys am yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad. Dywedodd:

¹ Pan ysgrifennwyd y ddogfen hon, nid oedd Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi dod i rym

² Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2010, paragraff 10

³ Cofnod y Trafodion, 25 Mai 2010, paragraffau 188-190

“The final backstop is the option, where necessary, of attaching specific terms and conditions to any funding for play to ensure we have proper working in this regard.”⁴

20. Ym mis Ionawr 2010, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor:

“We are waiting for the draft regulations to come forward from the Welsh Assembly Government which will give much more detail on what “sufficiency” means in relation to providing sufficient play facilities in local areas. While we welcome the proposed Measure, the devil will be in the detail and we will want further discussions on this when the regulations are drafted.”⁵

21. Ym mis Mehefin 2010, amlygodd y Gymdeithas y ffaith bod angen egluro beth yw ‘digonolrwydd’, ynghyd â beth yw ‘chwarae’, yn fwy eglur. Gofynnodd:

“Will play be defined as a particular, restricted set of activities, or will it have that wider scope that we see as being important?”⁶

22. Y diffiniad presennol o chwarae a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru, fel y nodir yn ei ‘Gynllun Cyflawni’r Polisi Chwarae’:

“mae chwarae yn cwmpasu ymddygiad plant a ddewisir yn rhydd, a gyfarwyddir yn bersonol ac a gymhellir yn gynhenid. Nid yw’ n cael ei berfformio er mwyn nod neu wobr allanol, ac mae’n rhan sylfaenol ac integredig o ddatblygiad iach - nid yn unig ar gyfer plant unigol, ond hefyd ar gyfer y gymdeithas y maent yn byw ynddi.”⁷

23. Fodd bynnag, dywedodd 42.9 y cant o’r plant a’r bobl ifanc a ymatebodd i holiadur y pwyllgor eu bod am gael eu goruchwylio gan oedolion neu am gael gweithgareddau wedi eu trefnu fel eu bod yn teimlo’n ddiogel wrth chwarae neu gymdeithasu.

24. Dywedodd Barnardo’s Cymru wrth y Pwyllgor:

⁴ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin, paragraff 136

⁵ Cofnod y Trafodion, 23 Chwefror 2010, paragraff 17

⁶ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraff 77

⁷

<http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/playpolicyimplementation/?lang=en>, tudalen 2

“Local interpretation of how ‘freely chosen, personally directed and intrinsically motivated’ play is implemented in services has led to varied provision and quality. This variation is in relation to what activities should be offered, how many adults should intervene and what participation means. In some areas play workers will provide some structured activities whilst in others they do not offer any activities because it is thought that children will create their own play and workers don’t wish to interfere with children’s free play experience. Anecdotally we know a few play and youth workers have said that anti bullying is an adult agenda and so do not intervene to stop bullying, whereas in other areas play workers build children’s awareness of bullying issues and their capacity to deal with bullying.”⁸

25. Mae’r Pwyllgor yn deall pryderon awdurdodau lleol sy’n disgwyl am ganllawiau ar beth yw ‘chwarae’ a sut y bydd ‘digonolrwydd’ yn cael ei fesur, ond mae o’r farn ei bod yn hanfodol y dylai unrhyw ddiffiniad o chwarae a gaiff ei gyheoddi gan Lywodraeth Cymru ddarparu ar gyfer chwarae a ddewisir yn rhydd, a gyfarwyddir yn bersonol ac a gymhellir yn gynhenid a chwarae strwythuredig a gaiff ei arwain gan oedolion i ddarparu ar gyfer yr amrywiaeth o gyfleoedd y dylai plant a phobl ifanc allu eu defnyddio. Mae’r Dirprwy Weinidog wedi datgan o’r blaen y bydd y rheoliadau a’r canllawiau ync ael eu cyhoeddi erbyn 2011-2012.⁹

26. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor fod awdurdodau yn gynyddol yn mabwysiadu ymagwedd fwy corfforaethol i chwarae o ganlyniad i’r Mesur ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.¹⁰ Roedd y Pwyllgor yn falch i glywed bod lefelau uwch awdurdodau lleol yn dechrau mynd i’r afael â chwarae. Fodd bynnag, o gofio’r ansicrwydd sy’n dal i fodoli ynghylch y diffiniad o ‘chwarae’ a ‘digonolrwydd’, Mae’r Pwyllgor yn pryderu y gall fod oedi cyn y gwelir newid parhaol os na fydd Llywodraeth Cymru’n cyhoeddi canllawiau clir ar y materion hyn.

27. Mae Llywodraeth Cymru’n cydnabod bod cysylltiad agos rhwng y ddau ddiffiniad. Dywedodd Pennaeth y Gangen Rhaglenni ar gyfer Plant a Theuluoedd wrth y Pwyllgor fod angen iddi edrych ar yr hyn y mae

⁸ Ymateb ysgrifenedig i’r ymgynghoriad, SP 05: Barnardo’s Cymru, tudalen 7

⁹ Cynhadeldd Chwarae Cymru, ‘Sufficient Play Opportunities for Children: what is good enough?’, Chwefror 2010

<http://www.playwales.org.uk/downloaddoc.asp?id=550&page=1008&skin=0>

¹⁰ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraff 65

'chwarae' yn ei olygu er mwyn asesu digonolrwydd, fel ei bod yn deall pa mor ddigonol yw i ateb anghenion plant a phobl ifanc.¹¹

28. Dywedodd hefyd wrth y Pwyllgor y bydd adolygiad Llywodraeth Cymru o'r safonau a'r canllawiau ar gyfer chwarae yn creu fframwaith ar gyfer asesu digonolrwydd chwarae.¹² Felly, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r canllawiau gynnwys diffiniad clir o chwarae sy'n cynnwys chwarae dirwystr a gweithgareddau sydd â mwy o strwythur.

Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i gwblhau ei hadolygiad o'r safonau a'r canllawiau ar gyfer chwarae cyn gynted â phosibl i alluogi awdurdodau lleol i asesu digonolrwydd eu darpariaeth chwarae bresennol ac i wneud cynlluniau cadarn ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol. Dylai'r canllawiau gynnwys diffiniad clir o 'chwarae' sy'n cynnwys chwarae wedi'i strwythuro a chwarae dirwystr, fel y caiff ei ddisgrifio ym mharagraff 25 o'r adroddiad hwn.

Y Strategaeth Polisi Chwarae a Chynllun Cyflenwi'r Polisi Chwarae

29. Yn 2004, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau', sy'n amlinellu'r cyfeiriad polisi ar blant a phobl ifanc yn y dyfodol. Ynddo, mae'r Llywodraeth yn 'trosi' erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i saith amcan craidd ar gyfer plant a phobl ifanc. Mabwysiadodd y Llywodraeth yr amcanion hyn fel sail ar gyfer ei holl waith gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae amcan craidd 4 yn nodi y dylai bob plentyn a pherson ifanc gael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol.

30. Mae [Polisi Chwarae, 2002](#) Llywodraeth Cymru yn ddatganiad eang o'r egwyddorion sy'n ymwneud â chwarae, ac mae'n nodi:

“Wrth geisio sicrhau bod Erthygl 31 o'r Confensiwn yn cael ei roi ar waith yn llawn, bwriad y Cynulliad yw bod y datganiad hwn yn cyfrannu at greu amgylchedd sy'n meithrin chwarae plant ac yn sail i strategaeth genedlaethol sy'n darparu ar gyfer anghenion chwarae'r plentyn.”

¹¹ Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2010, paragraff 18

¹² Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2010, paragraff 1

31. Mae [Chwarae yng Nghymru: Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae, 2006](#), a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn tynnu ynghyd y cymorth presennol ar gyfer chwarae; yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer chwarae yn y dyfodol; yn rhestru nifer o gamau allweddol ac amserlen ar gyfer eu rhoi ar waith; ac yn ceisio amlygu arferion arloesol.

32. Bu'r tystion yn gadarnhaol yn gyffredinol ynghylch y strategaeth chwarae a'r cynllun cyflawni, er bod rhai wedi awgrymu ei fod wedi cael ei weithredu'n fwy llwyddiannus mewn rhai mannau nag mewn mannau eraill. Awgrymodd y Gronfa Loteri Fawr:

“Our experience from implementing the Programme suggests that many of the issues identified by the [Play Policy Implementation Group] still require action.”¹³

33. Wrth i archwiliadau chwarae gael eu cynnal o ganlyniad i'r Mesur ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru), mae'r Pwyllgor yn credu mai dyma yw'r amser priodol i Lywodraeth Cymru adolygu sut mae ei pholisi chwarae'n cael ei roi ar waith a'r cynnydd a wnaed ar weithredu'r camau ac argymhellion unigol yn y cynllun cyflawni. Dylid cyhoeddi adolygiad o'r fath, a fyddai'n rhoi darlun clir o'r hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn, ac yn galluogi'r Dirprwy Weinidog i ailffocysu'r cynllun ar y mannau hynny sy'n ddilys o hyd yng ngoleuni deddfwriaeth ddiweddar a'r angen mwy nag erioed i flaenoriaethu sut y cyflenwir gwasanaethau cyhoeddus.

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad byr wedi'i ffocysu ar gynllun gweithredu'r polisi chwarae, i'w gwblhau cyn yr etholiad nesaf ac a fydd yn cynnwys rhanddeiliaid allanol. Dylai canlyniadau'r adolygiad gofnodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn a gwneud argymhellion i'r Dirprwy Weinidog a fydd yn ei gynorthwyo i ailffocysu'r cynllun ar y mannau hynny sy'n ddilys o hyd yng ngoleuni deddfwriaeth ddiweddar a'r angen mwy nag erioed i flaenoriaethu sut y cyflenwir gwasanaethau cyhoeddus.

Sut mae awdurdodau lleol yn cydgysylltu cyfleoedd chwarae

34. Mae'r tystion wedi mynegi pryder nad yw awdurdodau lleol bob tro'n darparu cyfleoedd chwarae mewn ffordd strategol a

¹³ Ymateb SP14 i'r ymgynghoriad, y Gronfa Loteri Fawr, paragraff 2.1

chydgysylltiedig. Teimlai'r Gronfa Loteri Fawr ei bod yn anodd iddi dorri drwy 'seilos' awdurdodau lleol.¹⁴

35. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad hwn, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

"The Children and Young People's Partnerships have responsibility under the Children Act 2004 to develop the Children and Young People's Plan (CYPP) based on the seven core aims. Under core aim 4 every Children and Young People's Partnership will have developed a plan for play provision within their area based on need."¹⁵

36. Gellir cyfleu rhai o'r pryderon a fynegwyd mewn perthynas â gwaith cydgysylltu awdurdodau lleol drwy edrych ar sut y caiff cyllid chwarae'r Loteri Fawr ei ddefnyddio. Er enghraifft, dywedodd y Gymdeithas wrth y Pwyllgor:

"It has been difficult to engage directly with the Big Lottery Fund as a children and young people partnership or a local authority. We have been required, or it has been requested that we always communicate with the Big Lottery through our local lead body, which has been the local voluntary sector organisations, supported by Play Wales."¹⁶

37. Wrth sôn am y broses y bu'n ei dilyn i ffurfio grwpiau newydd ac i ddatblygu cynlluniau'r Loteri Fawr, dywedodd Les Jone o Gymdeithas Swyddogion Cefnogi Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan:

"We are going to have a much stronger play network in our children and young people's partnerships, and much better collaboration between local adjoining partnerships as well. However, it has been a difficult process, and it has not been helped by the distance that has been kept between the strategic leads in the local authorities, the children and young people's partnerships and the Big Lottery Fund."¹⁷

¹⁴ Ymateb SP14 i'r ymgyngoriad, y Gronfa Loteri Fawr, paragraff 4.1

¹⁵ Ymateb SP15 i'r ymgyngoriad, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, paragraff 14

¹⁶ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraff 67

¹⁷ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraff 69

38. Wrth sôn am y partneriaethau plant a phobl ifanc, dywedodd y Dirprwy Weinidog,

“An element of ... the partnerships’ role in ensuring that there is proper partnership working with other organisations and their communities. There will be updated guidance to the CYP partnerships, which we hope will make clear their delivery role in relation to play. That guidance will be issued this year. Therefore, that guidance is in the making, and the committee’s findings will be central to ensuring that it is robust on this issue.”¹⁸

39. Mae'r Pwyllgor yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau ar y partneriaethau plant a phobl ifanc a fydd yn gwneud eu rôl mewn perthynas â darparu cyfleoedd chwarae yn glir. Mae gan y partneriaethau, wrth weithio ar draws adrannau llywodraeth leol a chyda'r sector gwirfoddol, y potensial i yrru sut y cyflenwir cyfleoedd chwarae ledled Cymru yn ei flaen mewn modd cydgysylltiedig ac wedi'i ffocysu. Fodd bynnag, os ydynt i lwyddo, rhaid i'r holl adrannau o fewn awdurdodau lleol a'r partneriaid posibl yn y sector gwirfoddol a statudol, ac eraill, gydnabod gwerth y partneriaethau.

40. Yn ei thystiolaeth, nododd Cymdeithas Chwarae Gogledd-ddwyrain Cymru:

“The Welsh Assembly Government also needs to put greater emphasis on Local Authorities ensuring that consideration of play is a cross cutting theme across departments and that planners, play providers and those responsible for traffic management actively engage together to ensure we provide the best possible play environments, avoid restrictions on play whenever possible and use resources most effectively.”¹⁹

41. Yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, cyfeiriodd Sustrans Cymru at gyfarfod a fynychodd gyda'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio, ei phrif beirianwyr a'i pheirianwyr priffyrdd. Dywedodd Sustrans bod dicotomi rhwng y Gweinidog, a oedd wedi cyhoeddi canllawiau ar gynllunio i alluogi chwarae, a'r peirianwyr priffyrdd. Dywedodd Sustrans:

¹⁸ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraffau 141-142

¹⁹ Ymateb SP18 i'r ymgynghoriad, Cymdeithas Chwarae Gogledd-ddwyrain Cymru, tudalen 14

“[the engineers] were using guidance or policy that was 15 or 20 years old...[there was] a real gulf between the people at the top, who were thinking, ‘if we pull leavers, things will happen,’ and the people on the ground working with a very risk-averse mindset, who govern what actually happens”²⁰

42. Mae'r enghraifft hon mewn perthynas â rôl yr Adrannau Cynllunio (a drafodir yn fanylach yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn) yn amlygu'r angen i gael ymgysylltiad priodol â'r partneriaethau plant a phobl ifanc. Mae angen i'r ymgysylltiad gwell hwn herio'r dulliau hen ffasiwn o weithio a sicrhau bod yr holl bartneriaid yn canolbwyntio ar gyflenwi canlyniadau gweladwy ar gyfer plant a phobl ifanc.

43. Awgrymodd y dystiolaeth gan y Loteri Fawr y dylai pob adran awdurdod lleol ymgysylltu â chwarae. Dywedodd:

“When you dig down into local authorities and individual departments, if you want an all-encompassing and proper approach to play, you need to engage with planners, community safety partnerships and a whole host of bodies like that. They do not necessarily see play as being part of their remit. A lot of that is to do with awareness raising and educating individuals in local authority departments by saying ‘you might be dealing with transport, but if your transport policy or approach to transport means that someone cannot access a local play opportunity or an open space, that is a problem that needs to be addressed and you have a role in addressing that’.”²¹

44. Roedd adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ym mis Hydref 2009, ‘Cyllidebu ar gyfer Plant yng Nghymru’, hefyd yn cydnabod yr effaith y mae nifer o adrannau awdurdodau lleol, fel tai, yn ei gael ar blant a phobl ifanc. Dywedodd y Pwyllgor ei fod wedi clywed gan randdeiliaid allweddol eu bod yn pryderu nad oedd hawliau plant yn cael blaenoriaeth mewn penderfyniadau cyllidebu.²²

45. Fel rhan o'i ymchwiliad i ddarparu manau diogel i chwarae a chymdeithasu, ysgrifennodd y Pwyllgor at bob un o'r 22 o awdurdodau

²⁰ Cofnod y Trafodion, 11 Mai 2010, paragraff 80

²¹ Cofnod y Trafodion, 25 Mai 2010, paragraff 188

²² ‘Cyllidebu ar gyfer Plant yng Nghymru’, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Hydref 2009, tudalen 6

lleol ym mis Mawrth 2010 yn gofyn am wybodaeth am y costau i awdurdodau lleol o gyflenwi darpariaeth o'r fath.

46. Roedd 13 o'r awdurdodau lleol wedi gallu darparu'r costau, er bod y sail ar gyfer eu hamcangyfrifon yn amrywio'n fawr. Dywedodd pedwar awdurdod arall wrth y Pwyllgor nad oeddent yn gallu rhoi amcangyfrifon ar gyfer eu gwariant ar wasanaethau chwarae a hamdden ar gyfer pobl ifanc. Ni allodd y pum awdurdod a oedd yn weddill ddarparu ymateb i'n cais cyn i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2010.

47. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i chwilio am ffyrdd i gyflwyno cyllidebu ar gyfer plant yng Nghymru ac mae'n teimlo y bydd yr holl faterion mewn perthynas â phlant a phobl ifanc yn cael budd o sicrhau gwell ymwybyddiaeth o fewn awdurdodau lleol o ganlyniad i hynny.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau diwygiedig mewn perthynas â phartneriaethau plant a phobl ifanc sy'n ailddatgan rôl ganolog y partneriaethau wrth ddatblygu ymagweddau strategol a chefnogi sut y cyflenwir y ddarpariaeth chwarae a hamdden. Dylai'r canllawiau ei gwneud yn orfodol i adrannau pob awdurdod lleol ac asiantaethau perthnasol ddangos yn llawn eu bod yn ymgysylltu â'r broses bartneriaeth.

Cefnogaeth awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth wirfoddol

48. Mae rhai o'r tystion a gyfrannodd at yr ymchwiliad wedi awgrymu y gall awdurdodau lleol weithio'n fwy effeithiol i gefnogi cyfleoedd chwarae sy'n cael eu cyflenwi drwy ddarpariaeth wirfoddol.

49. Er enghraifft, mae gan Iwth Pen, clwb ieuenctid yn Nyffryn Nantlle, 200 o aelodau ac mae mwy na 100 o bobl ifanc yn ei fynychu'n rheolaidd. Dywedodd y clwb wrth y Pwyllgor fod cadw'r clwb ar agor yn fater o gynaliadwyedd, yn ariannol.²³ Ar hyn o bryd, mae'r clwb yn cael trafferth ymdopi â'r nifer gynyddol o bobl ifanc sy'n mynychu'r clwb bob nos, ac mae wedi annog rhai pobl ifanc i ddefnyddio clwb ieuenctid yr awdurdod lleol yn yr ardal. Fodd bynnag, dywedodd y clwb:

“Ms Owen: We have to give some of our money to the local youth service so that it can offer those nights to young people

²³ Cofnod y Trafodion, 22 Mawrth 2010, paragraff 152

free of charge. It is a bit difficult because the youth service has resources – its own buildings, its own staff, and its own policies and procedures – while we are struggling with 120 young people on virtually nothing, and yet we have to pay the youth service.

“**Sandy Mewies:** How many attend what is provided by the local authority on a Friday?

“**Ms Owen:** two or three.”²⁴

50. Cafodd y clwb ieuenctid ei longyfarch gan y Pwyllgor ar ei ymdrechion i fod mor gynhwysol â phosibl drwy ei bolisiâu prisiau a sut mae'n rheoli ymddygiad. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y clwb yn ei chael yn anodd darparu ar gyfer y nifer gynyddol o bobl ifanc sy'n ei fynychu'n rheolaidd ac mae'n annog y gwasanaeth ieuenctid lleol i weithio mewn modd arloesol i gefnogi gwaith y gwirfoddolwyr.

51. Mae sefydliadau eraill yn cael cymorth drwy grantiau gan awdurdodau lleol. Mae grantiau o'r fath yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd nifer o'r sefydliadau sy'n eu cael ac felly byddai sicrhau bod grantiau'n cael eu rhannu'n well yn cynorthwyo ystyriaethau gweithredol y sefydliadau'n fawr. Dywedodd Maes Chwarae Antur y Rhyl:

“The adventure playground is funded by a grant from Denbighshire County Council that is awarded on an annual basis. Staff felt that awarding such grants on a three year basis would allow them to plan more effectively.”²⁵

52. O gofio'r angen i sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu digon o gyfleoedd chwarae, a'r angen cynyddol i sicrhau canlyniadau gan ddefnyddio llai o arian, mae'r Pwyllgor yn credu bod y ddarpariaeth wirfoddol yn hanfodol.

Cynaliadwyedd cyllideb chwarae'r Loteri Fawr

53. Mae'r Pwyllgor yn credu bod cynaliadwyedd cyllideb chwarae'r Loteri Fawr yn hanfodol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor fod ei swyddogion wedi cwrdd â chynrychiolwyr o'r Gronfa Loteri Fawr yr wythnos ddiwethaf i drafod datblygu grŵp llywio cenedlaethol ar

²⁴ Cofnod y Trafodion, 22 Mawrth, paragraffau 154-156

²⁵ CYP(3) AWE 10 : Nodyn Aelodau'r Pwyllgor ar yr ymweliadau rapporteur

gyfer y rhaglen chwarae i blant, a sut y bydd yn symud hynny yn ei flaen.²⁶

54. Dywedodd cynrychiolwyr o'r Loteri Fawr wrth y Pwyllgor:

“one of the first things we would want is to say what the definition is so that local authorities could see where they can engage and where their gaps are, against which they will be monitored...We want it to be a proper committee, with terms of reference and with minuted meetings so that the issue of sustainability can be thrashed out right from the very beginning. We can work at it over a period of years, so that it does not catch anyone by surprise at year 5. If that committee does come into being and does operate in the way we envisage, we think that we can work towards sustainability with more confidence than we would without the committee.”²⁷

55. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y Dirprwy Weinidog wedi cytuno i ddarparu cylch gorchwyl y grŵp llywio cenedlaethol i'r Aelodau, pan fydd yn addas gwneud hynny.²⁸

Cynllunio a diogelwch ar y ffordd

Traffig

56. Mae mannau cyhoeddus ar gael at ddefnydd ac er budd yr holl gymuned, ond mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod anghenion gyrwyr ceir yn cael eu rhoi uwchlaw anghenion cerddwyr a beicwyr mewn nifer o fannau.

57. Dywedodd Sustrans wrth y Pwyllgor:

“Traffic is a key barrier which needs to be addressed in order to enable children's play, as well as their ability to travel safely and independently. Local residential streets are a key public place which are currently under-used and under-valued as social space due to the negative impacts of car traffic.”²⁹

²⁶ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraff 145

²⁷ Cofnod y Trafodion, 25 Mai 2010, paragraff 202

²⁸ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraffau 146-147

²⁹ CYP(3)-07-03: papur 3 : Ymchwiliad i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu : cyflwyniad gan Sustrans, tudalen 3

58. Gofynnodd Joyce Watson, aelod o'r Pwyllgor, i ddisgyblion o Ysgol y Bedol beth oedd yn eu rhwystro rhag mynd allan i chwarae pan roeddent yn dymuno gwneud hynny. Teimlai'r plant fod ceir a pharcio anniogel, yn ogystal â bwlis a diffyg mannau wedi'u neilltuo ar gyfer chwarae, yn cyfyngu ar eu cyfleoedd chwarae.³⁰

59. Dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Blant wrth y Pwyllgor mai traffig yw'r risg mwyaf o hyd i fywydau'r plant a'r bobl ifanc mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dywedodd:

“The statistics are quite stark. A child living in a deprived area is many times more likely to be the victim of a road traffic accident than are children on average.”³¹

60. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y sefyllfa hon yn parhau er bod gostyngiad blynyddol ar gyfartaledd o 38 y cant yn nifer y damweiniau sy'n achosi niwed personol a gostyngiad o 42 y cant yn nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol.³²

61. Ni allai'r Dirprwy Weinidog egluro'r amryfusedd hwn. Dywedodd nad oedd yn ymwybodol o ymchwil cadarn sy'n egluro pam mai dyma yw'r sefyllfa.³³ Fodd bynnag, daeth adroddiad gan Uned Allgáu Cymdeithasol Llywodraeth y DU, 'Making the Connections: final report on transport and social exclusion', a gyhoeddwyd yn 2003, i'r casgliadau a ganlyn:

“1.33 The explanation for the variation in accident rates appears to come from a combination of both more dangerous environments and greater exposure to that danger.

_ Children from low-income backgrounds are more likely to live near main roads, more likely to play by or in roads (because they do not have safe alternative places to play) and to walk rather than travel by car.

_ Children from families in the lowest income quartile cross 50 per cent more roads than those in the highest quartile.

³⁰ CYP(3) AWE 10 : Nodyn Aelodau'r Pwyllgor ar yr ymweliadau rapporteur

³¹ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraff 157

³² Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraff 153

³³ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraff 160

_ Lack of access to a car doubles the risk of injury for children, and lack of a play area at home increases it by five times."³⁴

62. Roedd yr adroddiad yn trafod y sefyllfa yn Lloegr yn unig, ond mae'r Pwyllgor yn credu y gellir profi canfyddiadau'r adroddiad yn erbyn y sefyllfa wirioneddol yng Nghymru i alluogi'r Dirprwy Weinidog i ailffocysu'r gwaith sy'n cael ei wneud i ostwng y cyfraddau anafiadau i blant ar ffyrdd mewn ardaloedd difreintiedig.

63. Archwiliodd adroddiad a gyhoeddwyd gan Road Safety Analysis yn 2010, 'Child Casualties 2010; A study into resident risk of children on roads in Great Britain 2004-08', lefel y risg i blant ar draws y 408 o ardaloedd awdurdod lleol a dangosodd fod gan y plant sy'n byw mewn rhai ardaloedd bron i un siawns mewn 200 o gael eu hanafu bob blwyddyn. Roedd yr adroddiad wedi canfod hefyd mai'r plant sydd fwyaf agored i niwed yw'r rheini o deuluoedd ar incymau is sy'n aml yn byw mewn ystadau cyngor mawr lle nad oes llawer o bobl yn berchen ar eu tai sydd i'w cael yn y rhan fwyaf o ranbarthau'r DU, ar wahân i Dde-orllewin Lloegr a Llundain.³⁵

64. Awgrymodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y gellir gwneud mwy i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen arnynt i aros yn ddiogel. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

"Generally, if there is a road traffic accident involving a child, someone is to blame somewhere, whether it is a question of speed, visibility or a lack of awareness on the part of the child. That knocks on to all sorts of other situations relating to risk and danger, and being able to deal with that and be safe with it. The Crucial Crew programme, for instance, is good at giving those skills to young people and I would like to see more of those. I think that we are losing some of the old road safety measures that we used to have, around cycling proficiency, and so on; we just do not have that now."³⁶

65. Mae sefydliadau eraill hefyd yn pryderu ynghylch y posibilrwydd bod sgiliau diogelwch ar y ffordd yn cael eu colli. Ym mis Mehefin 2009, rhoddodd Heddlu Gogledd Cymru dystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor

³⁴http://www.cabinetoffice.gov.uk/media/cabinetoffice/social_exclusion_task_force/assets/publications_1997_to_2006/making_transport_2003.pdf, tudalen 19

³⁵ <http://www.roadsafetyanalysis.org/projects/child-casualties-2010/>

³⁶ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraff 91

Menter a Dysgu'r Cynulliad Cenedlaethol i leihau nifer y bobl a gaiff eu hanafu neu eu lladd a rheoli cefnffyrdd. Dywedodd:

“Road safety needs to become part of the national curriculum. What is the point of educating young people if they do not live to fulfil their potential due to being involved in a collision? This effectively means the introduction of a structured curriculum over the academic life time of a pupil that also extends into higher education and through lifelong learning facilitated by the Youth Service whose responsibility extends to young people up to the age of 25 – entirely in line with the accepted young driver profile. In short delivery of the right message, at the right time, to the right students, by the right people.”³⁷

Yng ngoleuni'r dystiolaeth sy'n dangos cyfradd uwch o anafiadau a marwolaethau o ganlyniad i ddamweiniau traffig ar y ffordd ymysg plant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ailffocysu ei hymdrechion i fynd i'r afael ag anafiadau i blant sy'n cerdded ar y ffordd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dylai hyn sicrhau gwelliant yn nangosyddion 15 ac 16 o Gerrig Milltir a Thargedau Tlodi Plant Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag anafiadau i unigolion rhwng 5 a 14 oed wrth iddynt gerdded ar y ffordd.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod diogelwch ar y ffordd yn cael ei gynnwys yn y cwricwlwm Cymreig.

Parthau cartrefi a phrosiectau addasu strydoedd ar y cyd â thrigolion

66. Mae tystion eraill wedi awgrymu bod ceir wedi'u parcio yn fygythiad i chwarae plant. Dywedodd Chwarae Cymru:

“Streets congested with parked cars have a significant effect on feelings of safety and perceived legitimacy of playing out... Adults' needs for protection and space for their cars are routinely and unquestioningly prioritized over children and young people's need to play out and hang out”³⁸

³⁷ EL3-13-09: papur 3: Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

³⁸ Ymateb ysgrifenedig SP3 i'r ymgynghoriad: Chwarae Cymru, paragraffau 3.26 – 3.30

67. Rhoddodd Jonathan Bevan dystiolaeth i'r Pwyllgor ar ei brofiadau o greu 'parthau cartrefi'. Mae'n eu disgrifio fel stryd neu grŵp o strydoedd y mae cerddwyr, beicwyr a cherbydau'n eu rhannu'n gyfartal, a lle mae ceir yn teithio dim ond ychydig cyflymach na'r cerddwyr. Dywedodd hefyd:

“Home zones challenge the traditional distinction between carriageway and footway in order to redefine the street as a valuable part of the local community's living space.”³⁹

68. Mae'r Pwyllgor yn credu bod adfer strydoedd fel mannau hyfyw i blant gael chwarae ynddynt yn hanfodol. Roedd y dystiolaeth gan Chwarae Cymru'n canolbwyntio ar sut y gallwn gynnwys plant a phobl ifanc yn ein cymunedau, yn hytrach na darparu mannau penodol ar eu cyfer, mae risg iddynt ddatblygu'n getoau.⁴⁰

69. Rhannodd Comisiynydd Plant Gymru farn debyg â'r Pwyllgor:

“Of those of us who travel around Wales, going to various communities, not many of us see children and young people playing in the street, not anymore. I am old enough to remember playing football in the street. I am also old enough to remember the windows that I broke and the things that I did...However, the attitude of the people where I lived towards my smashing windows was that I had to repair the window and I had to apologise, but I was still out playing football the following day. So, there was something more accepting about children being in the street.”⁴¹

70. Os ydym ni, fel cymdeithas, yn creu strydoedd ar gyfer ceir a moduron eraill yn bennaf, yna rydym yn anfon neges gryf y dylai gweithgareddau eraill gael eu cynnal mewn mannau eraill. Nid yn unig y bydd chwarae plant yn cael ei gyfyngu o fewn cymunedau, ond bydd elfennau eraill sy'n angenrheidiol ar gyfer dwyn cymunedau ynghyd yn cael eu colli hefyd. Dywedodd Sefydliad Beth Johnson wrth y Pwyllgor fod y car wedi cael effaith sylweddol ar gymunedau:

³⁹ CYP(3)-07-10: Papur 3 : Ymchwiliad i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu : Cyflwyniad gan Sustrans, Paragraff 3.1

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2010, paragraff 100

⁴¹ Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2010, paragraff 235

“It has changed the way in which people have contact with each other because we travel differently and therefore have much less contact with each other. At one stage, streets were a place in the neighbourhood where people came together, played and where communities interacted, and they were part of a play space where adults could supervise children, but now the car dominates the street. People are also fearful of their cars being damaged, for example by a football being kicked around and so on. It has become a very important and valuable possession. Streets are now places where you keep your car safe, rather than places where you meet and come together.”⁴²

71. Diben cyflwyno'r 'parthau cartrefi' yw unioni'r cydbwysedd rhwng ceir, cerddwyr, beicwyr a chwarae plant, ond maent yn ddrud i'w sefydlu, yn enwedig mewn ardaloedd sefydledig. O ganlyniad i rai dadleuon mewn perthynas â'r canfyddiad bod cost y parthau cartrefi'n rhy uchel, datblygwyd dull o gael trigolion i gymryd rhan mewn addasu eu strydoedd. Mae'r dull hwn yn cymryd elfennau o'r fformat parthau cartrefi, ond mae'n addasu strydoedd mewn ffordd fwy cost-effeithiol. Gallai hyn gynnwys defnyddio planhigfeydd yn y strydoedd i dorri ar lwybr clir y gyrrwyr a fydd yn eu gorfodi i arafu. Gallai gynnwys ailgyflunio trefniadau parcio hefyd i roi mynediad haws i fannau chwarae sy'n bell o unrhyw geir. Mae rhywfaint o dystiolaeth wedi dangos bod y ddau ddull wedi creu, i raddau mwy neu lai, ymwybyddiaeth a goddefgarwch gwell o ddefnyddwyr eraill y ffordd ac wedi creu ysbryd cymunedol cryfach. Nododd un prosiect addasu strydoedd ar y cyd â thrigolion bod 60% o'r trigolion a gymerodd ran mewn arolwg dilynol yn dweud eu bod yn cymdeithasu â phobl yn eu stryd nad oeddent yn eu hadnabod cyn hynny.⁴³

72. Mae angen lefelau sylweddol o arian ar gyfer y ddau ddull, yn ogystal â chefnogaeth trigolion lleol, ond gallant fod yn effeithiol o ran creu cydbwysedd rhwng anghenion holl aelodau'r gymuned. Er y byddai arian yn fater sylweddol pe bai'r naill fodel neu'r llall yn cael ei ddefnyddio'n eang ledled Cymru, mae'r Pwyllgor yn credu mai'r parthau cartrefi neu'r prosiectau addasu strydoedd ar y cyd â thrigolion yw'r dewis mwyaf hyfyw o bosibl mewn rhai ardaloedd i adfer y cydbwysedd

⁴² Cofnod y Trafodion, 25 Mai 2010, paragraff 21

⁴³ CYP(3)-07-10 : Papur 3 : Ymchwiliad i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu : Cyflwyniad gan Sustrans, tudalen 11

rhwng traffig a defnyddwyr eraill y ffordd, gan gynnwys plant a phobl ifanc sydd am chwarae a chymdeithasu.

73. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Cynllun Cyflenwi Polisi Chwarae Llywodraeth Cymru yn cynnwys y cam a ganlyn mewn perthynas â pharthau cartref: *'Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn annog y rheini sy'n ymwneud yn lleol â thrafnidiaeth a darpariaethau chwarae i gydweithredu wrth fwrw ati â pholisiau Parthau Cartrefi y Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd i Gymru'*, ac mae hefyd yn cynnwys fel argymhelliad 22, *'Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hybu'r defnydd o dawelu traffig a Pharthau Cartrefi o fewn datblygiadau sy'n bodoli eisoes a rhai newydd i gynyddu'r defnydd o ffyrdd preswyl ar gyfer chwarae plant.'*

Cynllunio ar gyfer anghenion yr holl gymuned

74. Drwy weithredu system gynllunio ragweithiol sy'n cydnabod anghenion plant a cherddwyr, dylid osgoi'r angen i sefydlu parthau cartrefi neu brosiectau addasu strydoedd ar y cyd â thrigolion mewn cymunedau sefydledig. O gofio dyletswydd yr awdurdodau cynllunio o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i ystyried troseddau a diogelwch cymunedol wrth wneud y rhan fwyaf o'r penderfyniadau y maent yn eu gwneud, roedd y Pwyllgor yn siomedig i glywed bod diogelwch plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn ôl-ystyriaeth i gynllunwyr sy'n canolbwyntio ar oedolion.⁴⁴ Dywedodd ACC Morris, Prif Gwnstabl Cynorthwyol De Cymru, wrth y Pwyllgor fod cynllunwyr weithiau'n dweud lle maent am adeiladu parc:

“say that this is where they want to put a park, because of how the estate looks and they decide where the park, the school and the shops are going to be. They do not engage with the local community and, in this case, young people to find out what they want and where they would want it. What tends to happen is that there is a lack of ownership by young people in those types of developments. As a consequence, it either does not get used or it gets vandalised or damaged, because it just does not meet their needs.”⁴⁵

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, 11 Mai 2010, paragraff 152

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, 11 Mai 2010, paragraff 153

75. Mae'r Mesur ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i alluogi a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau.

76. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor:

“When the association has looked at this issue in the past, we have concluded that the planning process is relatively sympathetic towards the provision of safe areas for play and hanging out.”⁴⁶

77. Fodd bynnag, dywedodd hefyd ei bod weithiau'n anodd cynnwys pobl ifanc yn y broses gynllunio oherwydd gall y broses fod yn un hir a chymhleth ac mae awdurdodau'n aml yn ei chael yn anodd ymgysylltu â phobl ifanc yn yr ardal.⁴⁷

78. Mae'r Pwyllgor wedi cael nifer o enghreifftiau o ddarpariaeth chwarae ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cael ei gyflenwi mewn lleoliad anaddas a hynny heb ymgysylltiad priodol â chymunedau lleol. Soniodd y Cynghorydd Peters, y Cynghorydd Cymunedol dros Langford, Castell-nedd, sydd hefyd yn gynrychiolydd yr Heddlu a Chymunedau Ynghyd, wrth y Pwyllgor am gae 'Astro turf' a oedd, mewn gwirionedd, wedi atal y plant a'r bobl ifanc a oedd yn defnyddio'r lleoliad cyn hynny rhag defnyddio'r cyfleusterau newydd.⁴⁸ Soniodd pobl ifanc o'r Ddraig Ffynci am barc sgrialu a oedd wedi'i ei leoli drws nesaf i gae bowlïo. Roedd canfyddiad bod y sŵn o'r parc yn amharu ar ddefnyddwyr y cae bowlïo. O ganlyniad, teimlai'r plant a'r bobl ifanc y bwriadwyd iddynt ddefnyddio'r parc na allent ei ddefnyddio rhag ofn iddynt achosi tensiynau rhyngddynt â'r genhedlaeth hŷn. Gellir osgoi problemau o'r fath drwy sicrhau ymgysylltiad priodol â phlant, pobl ifanc a'r gymuned ehangach o'r cychwyn.

79. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor fod gwneud penderfyniadau ynghylch darparu cyfleusterau chwarae a hamdden heb gyfranogiad plant a phobl ifanc yn enghraifft o lywodraethu gwael, ac os

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, 23 Chwefror 2010, paragraff 53

⁴⁷ Ymateb ysgrifenedig SP15 i'r ymgynghoriad, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, paragraff 30

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, 11 Mai 2010, paragraffau 153-154

bydd arferion gwael yn parhau i gael eu rhoi ar waith, bydd yn angenrheidiol cysylltu cyllid ag arferion da.⁴⁹

80. Dywedodd y Loteri Fawr ei bod yn teimlo y gellir gwneud mwy i sicrhau bod pob adran awdurdod lleol yn ystyried chwarae. Dywedodd wrth y Pwyllgor bod petruster ymysg rhai awdurdodau lleol tuag at brosiectau, a'i bod yn anodd torri drwy 'seilos' o fewn adrannau.⁵⁰

81. Mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae hefyd yn hanfodol bod y cyfranogiad yn ystyrllon a bod awdurdodau lleol yn ei werthfawrogi. Mae pobl ifanc wedi dweud wrth y Pwyllgor eu bod am fod yn rhan o ymgynghoriadau, a'u bod am gael gwybod pa benderfyniadau a wnaed yn dilyn ymgynghoriad a'r rhesymau drostynt. Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod yr ymagwedd hon yn gwbl resymol ac y byddai'n llunio'r arfer gorau wrth ymgynghori ag unrhyw unigolion neu grwpiau.

82. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi cyflwyno adroddiad ar gyllidebu ar gyfer plant fel dull o greu tryloywder mewn perthynas â gwariant ar blant a phobl ifanc, ond hefyd fel dull o alluogi iddynt gyfrannu mewn ffordd ystyrllon at benderfyniadau cyllidebu. Yn yr adroddiad hwnnw, amlygwyd y ffaith bod rhoi gwybodaeth i ymgynghoreion am y cyllidebau sydd ar gael ar gyfer prosiectau neu wasanaethau unigol yn arwain at drafodaeth fwy cytbwys. Mae'r Pwyllgor yn cadarnhau'r datganiad hwnnw yn y cyd-destun hwn.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y partneriaethau plant a phobl ifanc yn gwneud mwy o gyfraniad ac yn chwarae rhan fwy cyson yn y gwaith o yrru anghenion ac ymgysylltiad plant a phobl ifanc yn eu blaenau yn y broses cynllunio. Dylai adrannau cynllunio weithio gyda'r partneriaethau i ddatblygu ffyrdd ymarferol i sicrhau y rhoddir y pwyslais priodol ar y ffaith bod ar blant a phobl ifanc angen cael manau diogel i chwarae a chymdeithasu o fewn y prosesau a'r penderfyniadau cynllunio. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymhell bod yr Uned Cefnogi Partneriaethau yn casglu enghreifftiau o arfer da wrth gyfranogi at brosesau cynllunio ac yn dosbarthu'r wybodaeth honno i'r holl bartneriaethau mewn modd ystyrllon.

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraff 150

⁵⁰ Ymateb ysgrifenedig SP14 i'r ymgynghoriad, paragraff 4.1

Dylai'r canllawiau a gyhoeddir o ganlyniad i'r Mesur ynghylch Plant a Phobl Ifanc (Cymru) gynnwys canllawiau ar arferion da wrth ymgynghori sy'n nodi'r angen i roi'r holl ffeithiau sydd ar gael i'r ymgynghoreion, gan gynnwys gwybodaeth gyllidebol, a'r angen i roi gwybod i ymgynghoreion am unrhyw benderfyniadau a wneir o ganlyniad i'r ymgynghoriad a'r rhesymau drostynt.

83. Mynegwyd pryderon ehangach hefyd ynghylch cyfranogiad plant at y cyfleoedd chwarae sydd ar gael iddynt. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

“We are just not listening well enough to our children and young people. We are just not hearing what they say about their play opportunities.”⁵¹

84. Mynegodd Fairbridge Cymru bryderon mwy cyffredinol, a nododd yr anawsterau y mae rhai pobl ifanc yn eu profi wrth gyfranogi at y gymdeithas, ar y lefel fwyaf sylfaenol hyd yn oed:

“Very often it is negative adult attitudes which are cited by young people as reasons why they do not engage in positive community activities. Young people often feel that their opinions and needs are not regarded as important by adults within their community and that most are intolerant of even their visible presence on the street.”⁵²

85. Mae Pennod 2 o'r Mesur ynghylch Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2010 yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol i:

“wneud y cyfryw drefniadau ag y mae'n eu hystyried yn addas i hybu a hwyluso plant i gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt.”⁵³

86. Mae'r Pwyllgor yn credu mai hyn yw un o brif elfennau'r Mesur a byddai'n disgwyl gweld dyletswydd newydd yn cael ei chyflwyno i leddfwr rhai o'r pryderon a fynegwyd gan dystion mewn perthynas â chyfranogiad, neu ddiffyg cyfranogiad, plant a phobl ifanc.

⁵¹ Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2010, paragraff 198

⁵² Ymateb SP21 i'r ymgynghoriad, Fairbridge Cymru, p4

⁵³ Mesur ynghylch Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2010, Pennod 2:12:1

87. Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu ei bod yn hanfodol bod awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yng Nghymru'n rhannu arferion da a'r gwersi a ddysgwyd wrth annog a galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn ffordd ystyrlon, a'u bod yn darparu atborth addas ac eglurhad o'r penderfyniadau a wnaed o fewn amser rhesymol ar ôl yr ymgynghoriad.

88. Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu na ddylai awdurdodau lleol ac eraill gyfyngu ar eu hymdrechion i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i'r 'grwpiau arferol', fel fforymau ieuenctid awdurdodau lleol. Dylid gwneud ymdrechion i ymgysylltu â'r grŵp mwyaf eang o blant a phobl ifanc ag sy'n ymarferol. Dylid ystyried defnyddio rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes, fel ysgolion, clybiau ieuenctid, ac ati, er mwyn lleihau unrhyw gostau ychwanegol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai canllawiau statudol sy'n gysylltiedig â'r Mesur ynghylch Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2010 nodi y dylai plant a phobl ifanc gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar draws ystod eang o adrannau awdurdodau lleol. Ni ddylid ei gyfyngu i'r adrannau hynny sy'n ymwneud i raddau helaeth â phlant a phobl ifanc, er enghraifft, addysg a gwasanaethau cymdeithasol; yn hytrach, dylai hyn gynnwys adrannau cynllunio, trafnidiaeth a thai, er enghraifft. Er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn ffordd ystyrlon, dylai canllawiau ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gefnogi adeiladu capasiti ar gyfer pobl ifanc. Dylai'r gwaith cymorth hwn ymestyn y tu hwnt i fforymau ieuenctid er mwyn annog awdurdodau lleol i ymgysylltu ag ystod mor eang â phosibl o blant a phobl ifanc.

Cytundebau Adran 106

89. Rhwymedigaethau cynllunio yw cytundebau Adran 106 y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i gael cyllid gan ddatblygwr mewn amgylchiadau penodol. Defnyddir yr arian wedyn i ddarparu gwasanaethau neu seilwaith, er enghraifft ffordd, parc neu dai fforddiadwy.

90. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor fod defnyddio cytundebau 106 yn anodd, yn enwedig o ganlyniad i'r dirwasgiad dros yr 18 mis i ddwy flynedd ddiwethaf, sy'n golygu mai

nifer fach sydd wedi cael eu rhoi ar waith.⁵⁴ Cyfeiriodd y Gymdeithas hefyd at yr Ardoll Seilwaith Cymunedol newydd fel rheswm dros gollu'r buddiannau a geir o dan gytundebau Adran 106:

“section 106 agreements will increasingly apply to social housing, and authorities will not be able to achieve the kind of planning gains from them that they have in the past. The intention is that the community infrastructure levy compensates for those changes. The impression currently is that, because the consultation process on the community infrastructure levy is so lengthy and drawn out, the advantages will not necessarily be derived in the short term. Given that it is voluntary, there is also the possibility that not all authorities will take advantage of the opportunity. So, the gains of section 106 agreements may have been lost without the advantages of the CILs being available.”⁵⁵

91. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod y gall fod anawsterau wrth i gynllunwyr weithio i ddechrau manteisio ar yr Ardoll Seilwaith Cymunedol ac effaith hynny ar gytundebau Adran 106, mae'n teimlo bod gan y gweithgorau perthnasol o fewn y partneriaethau plant a phobl ifanc ran i'w chwarae wrth fonitro'r defnydd y cytunwyd arno o gytundebau Adran 106 a'u rhoi ar waith. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun y ffaith y gall cyllid o'r fath wneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu cyfleusterau chwarae a hamdden newydd o fewn yr amgylchedd cyllido presennol. Oherwydd hynny, dylai'r adrannau cynllunio ymgynghori â'r partneriaethau plant a phobl ifanc a gofyn iddynt wneud argymhellion sy'n addas yn eu barn nhw mewn perthynas â datblygiadau mawr sy'n denu symiau cymharol fawr o arian Adran 106.

92. Awgrymodd Val Lloyd, a ddirprwyodd fel aelod dros dro o'r Pwyllgor yn ystod ei drafodaethau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, reswm arall pam nad yw cytundebau Adran 106 yn cael eu defnyddio'n ddigonol. Dywedodd:

“Sometimes, when section 106 agreements have been made and the council has tried to implement them – I am talking from

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, 23 Chwefror 2010, paragraff 53

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraff 102

personal knowledge here – residents have objected to a play facility next to them”⁵⁶

93. Mae'r Pwyllgor yn credu y gellir osgoi'r sefyllfa y mae Val Lloyd yn ei disgrifio os bydd cynllunwyr yn ystyried lleoliadau ar gyfer parciau a chyfleusterau chwarae fel rhan gyfannol o'r cynllun ac yn eu hadeiladu ar y cychwyn yn hytrach nag ar ôl i bobl symud i'r ardal. Awgrymodd Ann Jones, aelod dirprwyedig arall o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad:

“When people go looking around the estate, they will then think, ‘we have young kids so we will buy a house near the play area’, while the older people who think, ‘I do not want kids nearby’ will buy a house further away.”⁵⁷

Canllawiau a pholisi cynllunio

94. Dywedodd Sustrans wrth y Pwyllgor fod rhai peirianwyr priffyrdd yn parhau i ddefnyddio hen ganllawiau a oedd yn 15-20 oed, er bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau cynllunio sy'n annog chwarae.⁵⁸

95. Dywedodd hefyd fod egwyddorion y canllawiau cynllunio ‘Manual for Streets’⁵⁹ wedi cael eu haddasu a'u mabwysiadu yn yr Alban fel polisi cynllunio. Drwy gyhoeddi'r egwyddorion fel polisi yn hytrach na chanllawiau, bydd yn ofynnol i gynllunwyr eu trin fel rhywbeth y mae'n rhaid ei ystyried yn hytrach nag fel ôl-ystyriaeth mewn proses sy'n canolbwyntio ar oedolion.

96. Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod chwarae yn rhy bwysig i fod yn ôl-ystyriaeth yn y broses gynllunio. Dylai fod yn rhan hanfodol o unrhyw ddyluniad ar gyfer cymunedau a dylai alluogi plant a phobl ifanc i gael safle amlwg mewn cymdeithas. Dywedodd Cymdeithas Chwarae Gogledd-ddwyrain Cymru yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

“The places we provide for play are also often badly located and segregated from other public areas in communities. By ‘hiding’ play provision away, we are sending out a message that play is not valued and as a result that we don't value what children choose to do with

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, 23 Chwefror 2010, paragraff 65

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, 23 Chwefror 2010, paragraff 132

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, 11 Mai 2010, paragraff 80

⁵⁹ <http://www.dft.gov.uk/pgr/sustainable/manforstreets/>

their time. Play should not be separate to the rest of community life. Play provision should be at the heart of the community and should provide a space where children have permission to play as they choose, to get dirty and messy, to play with the elements, climb trees and make dens.”⁶⁰

97. Mae'r farn hon yn adlewyrchu barn Chwarae Cymru, a ddyfynwyd yn flaenorol, sy'n amlygu'r risgiau y bydd plant yn cael eu gwahanu oddi wrth weddill y gymuned drwy'r defnydd o 'getoau' chwarae.

98. Mae'r Pwyllgor yn teimlo ei bod yn hanfodol y dylid adlewyrchu'r ffaith bod angen i blentyn chwarae a bod â'i ffrindiau ym mhob cais cynllunio yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Polisi Cynllunio Cymru 3 a Nodiadau Cyngor Technegol 12 (Dylunio) a 18 (Trafnidiaeth), sy'n ei ategu, er mwyn sicrhau ei fod yn ofyniad mwy penodol bod yn rhaid i'r defnydd o'r canllawiau ar ddarpariaeth chwarae yn 'Manual for Streets' fod yn rhan hanfodol o unrhyw waith dylunio ar gyfer cymunedau.

99. Er y dylid galluogi plant a phobl ifanc i chwarae y tu allan i'w cartrefi ac yn eu cymunedau lleol, mae'n addas darparu mannau chwarae a pharciau o hyd. Mae ar blant a phobl ifanc angen amrywiaeth o gyfleoedd i chwarae, a gall fannau chwarae, Ardaloedd Chwaraeon Aml-ddefnydd a mannau agored ddarparu amgylchedd cyffrous i blant os ydynt yn cael eu gosod a'u cynnal a'u cadw'n briodol.

100. Mae plant a phobl ifanc wedi dweud wrth y Pwyllgor y gall rhannu mannau chwarae â phlant hŷn neu bobl ifanc beri pryder i rai plant. Dyma rai o'r pethau a ddywedodd y rheini a lenwodd holiadur y Pwyllgor sy'n eu hatal rhag mynd allan i chwarae:

“Pan fydd pobl hŷn yn y mannau lle yr hoffwn fynd iddynt”

“Pobl eraill yn dweud wrthym am adael oherwydd ein hoedran”

“Y bobl ifanc hŷn”

“Os oes pobl hŷn yno”

⁶⁰ Ymateb ysgrifenedig SP18 i'r ymgynghoriad : Cymdeithas Chwarae Gogledd-ddwyrain Cymru, tudalen 3

101. Bydd chwarae heriol ar gyfer plentyn ifanc yn rhy ddiflas yn y rhan fwyaf o achosion i ddisgybl ysgol gynradd. Gall pobl yn eu harddegau fod eisiau cymdeithasu a siarad â'u ffrindiau yn hytrach na chwarae ar y swingiau neu'r sleidiau, felly dylai fod amrywiaeth o gyfarpar ar gael mewn un man. Fodd bynnag, dylid cydnabod hefyd nad yw rhywbeth sy'n her i un plentyn 8 oed o reidrwyd yn her i blentyn arall o'r un oed. Dylid osgoi cael mannau arbennig ar gyfer plant o oed penodol i roi'r rhyddid i blant a phobl ifanc chwarae â grwpiau o ffrindiau o wahanol oedran, neu i wynebu heriau pan fyddant yn barod i wneud hynny.

102. Dywedodd Grŵp Gweithredu Ieuenctid y Rhyl wrth y Pwyllgor y gall y defnydd o gyfleusterau addas, lle y maent i'w cael, gael ei danseilio gan faterion cymharol fach. Dywedodd Shane Owen wrth y Pwyllgor:

“there is a skate park on the promenade. Much of the criticism that comes back from that is around lighting and shelter. Little shelters have been built there, but they are all perforated, and because they are on the promenade, the wind just goes straight through. Therefore, as soon as it gets dark, they move away from there.”⁶¹

103. Aeth yn ei flaen i egluro:

“You can get systems in multi-use games areas...which include a button that you press to put the light on and after 10 minutes, the light turns itself off.”⁶²

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod awdurdodau lleol, am resymau ariannol, yn targedu'r defnydd o oleuadau stryd, gan flaenoriaethu llwybrau i ardaloedd chwarae. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod systemau goleuo yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau ar gyfer cyfleusterau chwarae, yn enwedig y rheini ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc y mae'n gwbl resymol iddynt fod allan wedi iddi nosi.

⁶¹ Cofnod y Trafodion, 22 Mawrth 2010, paragraff 22

⁶² Cofnod y Trafodion, 22 Mawrth 2010, paragraff 78

Effaith Ofn

Ysbwriel a fandaliaeth

104. Dywedodd nifer o'r plant a phobl ifanc a lenwodd holiadur y Pwyllgor fod yr ysbwriel a'r fandaliaeth yn yr ardal roeddent yn chwarae neu'n byw ynnddi yn peri ofn iddynt. Dywedodd disgyblion Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre yng ngogledd Cymru wrth Eleanor Burnham, Aelod o'r Cynulliad, eu bod yn aml yn gweld ysbwriel ysmegu a nodwyddau mewn mannau agored lleol yr hoffai'r plant chwarae ynnddynt fel arall. Dywedodd un plentyn yn yr ysgol wrth Eleanor fod eitemau o'r fath yn cael eu taflu'n rheolaidd i'w ardd o'r safle bws y tu allan, a oedd yn gosod rhwystrau o ran y mannau yn y cartref y gallai'r plentyn chwarae ynnddynt.⁶³

105. Roedd Clwb Pêl-droed y Rhyl yn rhannu pryder tebyg ynghylch pa mor lan yw mannau chwarae:

“There seem to be a lot of dogs in Rhyl. I did one session where we had to put cones around the dog mess, and one of the kids was zipping around the cones...and he said that it was great that we put cones around the dog muck, because they are used to having to play in it.”⁶⁴

106. Mae'r Pwyllgor yn credu bod cyfreithiau a rheoliadau digonol ynghylch gollwng ysbwriel a'r angen i bobl edrych ar ôl cŵn mewn modd cyfrifol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod problem o hyd ac mae'n rhaid delio â hi er mwyn sicrhau bod mannau chwarae a mannau agored yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod awdurdodau lleol yn siarad â phlant a phobl ifanc i fonitro'r mater o lendid a threfn ac i ffocysu adnoddau glanhau a chynnal a chadw ar fannau sy'n peri problemau.

⁶³ CYP(3) AWE 11 - Nodyn ar ymweliad rapporteur yr Aelodau i Ysgol Gynradd Rhosymedre

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, 22 Mawrth 2010, paragraff 306

Iechyd a Diogelwch

107. Mae tystion wedi mynegi pryder y gall ymagwedd at chwarae sy'n osgoi risg yn ormodol rwystro plant a phobl ifanc rhag cymdeithasu'n ddiogel.

108. Nododd Chwarae Cymru:

“The evidence shows that children do not go out and seek risks; they go out to create opportunities to take risks. It is about taking risks in an environment of security – that is how children stretch themselves.”⁶⁵

109. Dywedodd Barnardo's:

“Health and safety should not prevent an activity. It should help you to manage the risk.”⁶⁶

110. Fodd bynnag, cyfeiriodd yr Athro Jo Sibbert at y ffaith bod marwolaethau o ganlyniad i anafiadau mewn meysydd chwarae yn brin iawn erbyn hyn o ganlyniad i arferion diogelwch modern. Nododd hefyd:

“If they [playgrounds] are seen to be safe by parents, they will allow their children to play. This will mean safety for the children and good play experience as well.”⁶⁷

111. Mae'r awgrymiadau gan Chwarae Cymru bod arian yn cael ei wastraffu ar osod arwyneb drud a chyfarpar safonol wedi'i weithgynhyrchu mewn mannau chwarae⁶⁸ yn cael eu gwrthbrofi yn nhystiolaeth yr Athro Sibbert. Fodd bynnag, cynigiodd ddeunydd amgen rhatach yn lle'r arwyneb meddal sy'n gyffredin iawn mewn mannau chwarae modern a chyfeiriodd at ymchwiliad diweddar a brofodd fod lloriau tywod mewn meysydd chwarae nid yn unig yn lleihau nifer yr anafiadau i'r pen, ond nifer y toriadau mewn breichiau hefyd. Nododd:

“This is important work because it confirms that significant head injuries do not occur in modern playgrounds but also holds out the hope that arm fractures might be prevented. Sand

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2010, paragraff 155

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2010, paragraff 172

⁶⁷ Ymateb SP26 i'r ymgynghoriad, yr Athro J Sibbert, Iechyd Plant Caerdydd

⁶⁸ Ymateb SP03 i'r ymgynghoriad, Chwarae Cymru, paragraff 3.44

traditionally caused concern over dog fouling but clearly now needs to be re-examined.”⁶⁹

112. Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod chwarae anturus yn werthfawr i blant a phobl ifanc. Drwy wthio'r ffiniau yn feddylol ac yn gorfforol drwy chwarae, gall plant a phobl ifanc ddatblygu a dod yn fwy hyderus wrth asesu risgiau. Mae hyn yn hanfodol os ydynt am asesu risgiau mewn rhannau eraill o'u bywydau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, byddai'n anghyfrifol gwneud plant yn agored i risg dianghenraid neu ormodol.

113. Mae Llywodraeth y DU wedi ystyried y mater hwn ac wedi cyhoeddi canllawiau iechyd a diogelwch wedi'u diwygio ar gyfer chwarae. Lluniwyd y canllawiau, nad ydynt wedi cael eu mabwysiadu yng Nghymru, i osgoi damweiniau ac i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel, tra'n parhau i ganiatáu chwarae anturus mewn amgylchedd sydd wedi'i reoli'n briodol. Dywedodd Peter Duncan, cyd-sefydlwr cwmni cydweithredol hyfforddiant Dynamix Cyf:

“Managing Risk in Play Provision’, the Play England policy, is a strong document, which is supported by the Health and Safety Executive, the Royal Society for the Prevention of Accidents and so on”⁷⁰

114. Teimlai Chwarae Cymru nad yw nifer o'r rhwystrau y mae pobl yn credu sy'n bodoli yn bodoli mewn gwirionedd”⁷¹ oherwydd bod cymeradwyaeth Llywodraeth y DU o 'Managing Risk in Play Provision' wedi newid sut y caiff iechyd a diogelwch ei ystyried mewn perthynas â lleoliadau chwarae.

115. Awgrymodd Sgowtiaid Cymru fod rhai arweinwyr ieuenctid yn amharod o hyd i fynd â phlant y tu allan oherwydd eu bod yn ofni y bydd rhywbeth yn digwydd, er gwaethaf y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi cymeradwyo'r ymagwedd risgiau/buddiannau.⁷²

116. O gofio'r diwylliant cyfreithgar sy'n datblygu yn y DU, nid oes fawr o syndod bod gan ddarparwyr chwarae ac arweinwyr ieuenctid bryderon. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn teimlo y gall fod yn bosibl rhoi sicrwydd i arweinwyr ieuenctid a darparwyr chwarae bod ychydig o

⁶⁹ Ymateb SP26 i'r ymgynghoriad, yr Athro J Sibbert, Iechyd Plant Caerdydd

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, 25 Mai 2010, paragraff 128

⁷¹ Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2010, paragraff 134

⁷² Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraff 48

chwarae anturus yn beth cadarnhaol, drwy roi cefnogaeth ac anogaeth iddynt. Rhaid cydnabod hefyd y bydd angen rhoi sicrwydd weithiau i rieni er mwyn sicrhau bod plant yn cael caniatâd i ymuno mewn gweithgareddau o'r fath.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n datblygu cyfres o ganllawiau iechyd a diogelwch ar gyfer lleoliadau chwarae sy'n caniatáu chwarae anturus. Dylid datblygu'r rhain mewn ymgynghoriad â darparwyr chwarae, plant a phobl ifanc a rhanddeiliaid eraill.

Perygl dieithriaid

117. Dywedodd nifer o'r plant a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn eu bod yn pryderu ynghylch perygl dieithriaid. Dywedodd 14.6 y cant o'r rhai a lenwodd holiadur y Pwyllgor fod dieithriaid yn gwneud iddynt deimlo'n anniogel pan fyddant yn chwarae neu'n cymdeithasu. Roedd 2.9 y cant ohonynt yn dweud bod y storïau neu'r hanesion gwerin roeddent wedi'u clywed yn gwneud iddynt deimlo'n anniogel. Roedd nifer o'r storïau hynny'n cynnwys dieithriaid sy'n berygl i blant. Roedd 85 y cant o'r plant a'r bobl ifanc a ddywedodd bod dieithriaid yn gwneud iddynt deimlo'n anniogel rhwng 9 a 15 oed.


118. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn "os ydych wedi teimlo'n anniogel wrth chwarae / cymdeithasu, beth achosodd hyn?" yn cynnwys:

"Rhag ofn i rywun neidio allan o'r coed a'm dal" (merch 10 oed)

"Person yn fy ngwylio" (bachgen 14 oed)

"Pedoffiliaid, llofruddiwyd, treiswyr, cŵn dieithr, dieithriaid, cyffuriau, trampïaid, pobl alcoholig" (ni roddwyd oedran)

"Pobl ddieithr yn cerdded heibio" (bachgen 14 oed)



119. Yn ystod ymweliad rapporteur Eleanor Burnham ag Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre yng ngogledd Cymru, nododd y staff dysgu mai man diogel i chwarae yw rhywle lle nad oes dieithriaid.

120. Fodd bynnag, dywedodd ACC Morris, Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu De Cymru wrth y Pwyllgor:

“There is a perception of stranger danger, but I have a couple of figures from south Wales and north Wales. In 2008-09, we had 28 reports of kidnapping, of which only five related to young people. Of that five, only one referred to a stranger. In the South Wales Police area, in 2009-10, we had 17 reports of kidnapping, only two of which referred to young people and, in both cases, no further action was taken because there were issues with the young people reporting things. In the North Wales Police area, we have not had any reported kidnappings of

young people in the last two years. So there is a perception issue around stranger danger.”⁷³

121. Awgrymodd Barnardo’s y dylid ailffocysu’r ymgyrchoedd Perygl Dieithriaid a gynhaliwyd yn flaenorol, gan ddweud:

“I would like to see the message that we give children changed to how to keep themselves safe from adults who might harm them, which would include people in the home and when they are staying over at other children’s homes. It would be about keeping themselves safe, what that means and what appropriate and inappropriate behaviour look like, so that they are not scared to go out of the front door how to be confident, how to talk about the issues and how to recognise some of the warning signs.”⁷⁴

122. Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru’n rhedeg unrhyw ymgyrchoedd Perygl Dieithriaid. Fodd bynnag, mae ymgyrchoedd fel “safer stranger, safer buildings”⁷⁵ yn cael eu hyrwyddo gan randdeiliaid eraill ar hyn o bryd. Mae’r ymgyrch “safer stranger, safer buildings” yn cyfleu neges fwy cadarnhaol na’r ymgyrchoedd blaenorol, ac yn annog plant i chwilio am help gan staff mewn lifrai, fel yr heddlu, gweithwyr siopau a wardeniaid traffig, neu i fynd i dderbynfeydd mewn adeiladau os byddant ar goll. Diben ymgyrchoedd eraill, fel yr ymgyrch “safe from harm” a lansiwyd yn Fife yn 2001, yw ceisio amlygu’r ffaith ei bod yn fwy tebygol y caiff plant eu niweidio neu eu cam-drin gan rywun y maent yn ei nabod. Diben yr ymgyrch “safe from harm” yw helpu plant i adnabod arwyddion o berygl ac i wybod sut i gael help os oes ganddynt bryderon.

Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru’n gweithio gyda rhanddeiliaid eraill i adolygu buddiannau lansio ymgyrch newydd i helpu plant a rhieni i reoli risgiau , i adnabod sefyllfaoedd allai fod yn beryglus ac i wybod sut i gadw eu hunain yn ddiogel yn y cartref a’r tu allan iddo heb amharu ar ryddid a phrofiadau plant a phobl ifanc.

123. Awgrymodd Sefydliad Beth Johnson dros astudiaethau rhwng y cenedlaethau yr hyn a ganlyn:

⁷³ Cofnod y Trafodion 11, Mai 2010, paragraff 186

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2010, paragraff 163

⁷⁵ <http://www.childseyemedia.com/safety.html>

“We have created a society where, because people are unknown, we have become fearful of people... it is made worse because, as adults, we teach children not to have contact with adults. There was a time when, if you got lost, you went to find an adult to look after you. Now, adults are seen as potentially dangerous. That is one of the things that have restricted much of that contact. We positively encourage people not to meet. If you are an older person, your motives will be suspected. If you are a young person, you may be putting yourself in a risk situation. So, there is less contact, and we are driving a wedge between the generations.”⁷⁶

124. Soniodd pobl ifanc o'r Ddraig Ffyni wrth y Pwyllgor am y gwaith rhwng y cenedlaethau sy'n digwydd lle mae pobl ifanc yn helpu aelodau hŷn eu cymuned drwy dorri'r gwair neu siopa ar eu rhan. Teimlai'r bobl ifanc y dylid hwyluso gwaith rhwng y cenedlaethau yn amlach. Rhannodd Grŵp Gweithredu Ieuencid y Rhyl brofiad cadarnhaol tebyg â'r Pwyllgor. Dywedodd:

“There is a group of young people called West Rhyl Marshals, who work with the police and the fire service. They pick a street every couple of months, and walk up and down the street. The police and the fire service will knock on the door and speak to parents and young people. The police might give them advice about security and the fire service might give them advice about fire alarms or ask if they want to have them fitted, while the young people help to clear their gardens... in return, the young people get a cup of tea and some biscuits.”⁷⁷

125. Mae gwaith rhwng y cenedlaethau yn creu cysylltiadau rhwng pobl iau a phobl hŷn mewn cymuned ac yn gwneud i bobl ddod i adnabod pobl yn eu hardal, yn hytrach na chadw'r statws 'dieithryn'. Fodd bynnag, dywedodd Sefydliad Beth Johnson wrth y Pwyllgor:

“Today, one weakness of intergenerational work in Wales, as compared to England, is that it has been largely led by the older

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, 25 Mai 2010, paragraff 24

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, 22 Mawrth 2010, paragraff 42

people sector, so it has been about older people's views and concerns."⁷⁸

126. Mae'r Pwyllgor yn credu bod gwaith rhwng y cenedlaethau'n ddull defnyddiol a fydd, i raddau helaeth, yn helpu i ddod â chymunedau at ei gilydd ac yn cael gwared ar rywfaint o'r ofn y mae plant a rhieni'n ei deimlo wrth rannu manau â phobl nad ydynt yn eu nabod. Fodd bynnag, rhaid ailffocysu'r gwaith i ystyried barn a phryderon pobl ifanc ynghyd â rhai pobl hŷn.

127. Dywedodd Sefydliad Beth Johnson wrth y Pwyllgor hefyd:

"Some interesting work has been done in relation to street parties and neighbourhoods, which has involved closing the street off for the day and giving people the opportunity to meet each other again. The research that has been done on the street parties and using those to develop community play spaces has been impressive."⁷⁹

128. O gofio'r pryderon y cyfeirwyd atynt yn flaenorol yn yr adroddiad hwn ynghylch traffig a goruchafiaeth y car mewn ardaloedd preswyl, mae'r Pwyllgor yn credu bod y cam eithaf syml o gau stryd am y diwrnod i alluogi plant ac oedolion i gwrdd, cymdeithasu a chwarae â'u cymdogion yn gwbl resymol. Dyma a ddywedodd Sefydliad Beth Johnson am hyn:

"It is important not to see play as something that only children and young people do. One reason why Scandinavian countries have been good at what they do is that play is seen as something that the whole community engages in."⁸⁰

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei gwaith rhwng y cenedlaethau'n cael ei wneud ar draws adrannau i sicrhau y ceir mewnbwn o'r gwaith polisi plant a phobl ifanc perthnasol, yn ogystal â datblygiad polisi pobl hŷn.

Stereoteip negyddol o blant a phobl ifanc

129. Cafodd y Pwyllgor lawer o dystiolaeth sy'n dangos bod stereoteipio negyddol o blant a phobl ifanc yn digwydd yn aml, a bod y gamdybiaeth

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, 25 Mai 2010, paragraff 54

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, 25 Mai 2010, paragraff 22

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, 25 Mai 2010, paragraff 56

hon yn achosi llawer o ofn, ymleiddio a diffyg parch mewn cymdeithas. Pan ofynnwyd i Gomisiynydd Plant Cymru os mai'r Deyrnas Unedig yw'r wlad fwyaf anghyfeillgar tuag at blant yn Ewrop, dywedodd:

“Without any question in my mind...If you look at anti-social behaviour and attitudes towards that, we are very heavy on children and young people's behaviour. Our attitudes towards children and young people are probably more negative too.”⁸¹

130. Cawsom wybod am enghreifftiau penodol o ddigwyddiadau lle'r oedd ofn heb sail wedi effeithio ar sut mae cenedlaethau'n rhyngweithio. Dyma enghraifft gan Fairbridge Cymru:

“One of the young people who we were talking to the other week said that he was walking down a high street in Cardiff with his headphones on and his music blaring away, when he saw an old lady drop her shopping. He went to help her and she screamed, 'Attacker', because her first thought was that a young person walking towards her would be a threat to her. He said 'I just wanted to help her'. He felt embarrassed and ended up just putting his hands up and walking away.”⁸²

131. Yn ei adroddiad ar y cyd i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, amlygodd Comisiynydd Plant Cymru y ffaith nad yw pobl yn goddef gweld plant a phobl ifanc yn defnyddio mannau cyhoeddus. Nododd yr adroddiad:

“In one survey in England, two-thirds of children said they liked to play outside daily, mostly to meet friends. However, 80% have been told off for playing outdoors, 50% say they have been shouted at for playing outside and 25% of 11 to 16-year-olds were threatened with violence by adults.”⁸³

132. Dywedwyd wrthym hefyd bod plant a phobl yn aml yn cael eu gweld fel y broblem yn hytrach nag fel rhan o'r ateb. Dywedodd cynrychiolwyr PACT wrth y Pwyllgor:

⁸¹ Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2010, paragraffau 227-228

⁸² Cofnod y Trafodion, 11 Mai 2010, paragraff 16

⁸³ Adroddiad Comisiynwyr Plant y DU i Bwyllgor yr Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Mehefin 2008

“Everyone who attends the PACT meeting in our area is characterised as being over 40, has a similar perception of children in the area, and, to put it mildly, they demonise the young people in the area.”⁸⁴

133. Fodd bynnag, nid yw gweld plant yn chwarae yn y stryd neu'n cymdeithasu â ffrindiau ar gornel y stryd yn rhywbeth newydd. Mewn gwirionedd, cafwyd dadl bod llai o blant ar y stryd yn awr nag a oedd yn y gorffennol. Dywedodd Mr Hatton-Yeo o Sefydliad Beth Johnson ar gyfer astudiaethau rhwng y cenedlaethau:

“It is interesting, when you work with older people, to get them to consider the behaviours that they would have been involved in when they were young, because it is almost as if they had forgotten that that is what they used to do. They need to be reminded sometimes of their own experience of being young people. Many of the things they complain about now are typical of the way in which they behaved. However, 50 years ago people had much more freedom, and as a child or young person you could be much more invisible than you can now, because we have a much more regulated society.”⁸⁵

134. Mae'r dystiolaeth gan PACT a Fairbridge Cymru a nodir isod yn dangos mai'r genhedlaeth hŷn sy'n anoddefgar o bobl ifanc neu sy'n eu hofni, ond dywedodd Sefydliad Beth Johnson wrth y Pwyllgor:

“Negative stereotyping goes both ways; it is not just about old people being fearful of children, because children are also fearful of older people... many young people are not allowed to go out without adult support because of that fear of adults.

“The incidence of crime and victimisation of older people is very low, but the media over-report any crime or anything that happens. That has created a situation in which people are fearful, which is often not based on evidence, but assumption. Intergenerational work provides an opportunity to get underneath what the media are telling us to find out what the reality is”⁸⁶

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, 11 Mai 2010, paragraff 173

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, 25 Mai 2010, paragraff 19

⁸⁶ Cofnod y Trafodion, 25 Mai 2010, paragraff 17 - 18

135. Mae ofnau rhieni'n ychwanegu at y broblem hefyd. Mae'r Pwyllgor yn deall yr ofnau mewn perthynas â diogelwch plant wrth chwarae yn yr awyr agored ac mae'n gweld ei bod yn naturiol i rieni fod yn bryderus pan fydd eu plant yn cael ychydig o annibyniaeth. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd Cymdeithas Chwarae Gogledd-ddwyrain Cymru:

"All parents will (and probably always have) held some concerns about allowing their children out to play. However in more recent times these anxieties have been increased to the point where they are disproportionate to the real risks and are placing significant restrictions on children's play."⁸⁷

136. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor hefyd fod rhieni'n amharod i ganiatáu i'w plant chwarae allan oherwydd nid yw hynny'n cael ei ystyried fel rhianta da. Dywedodd y Comisiynydd Plant wrth y Pwyllgor:

"I have spoken to parents, particularly young parents, who want to be good parents and strive to do good things for their children, but they are worried that they will be labelled bad parents if they let their children play outside."⁸⁸

137. Cadarnhawyd hyn mewn dystiolaeth gan Chwarae Cymru. Dywedodd Mike Greenaway, Cyfarwyddwr Chwarae Cymru:

"When I was a child, you saw children outside and it was legitimate for children to be playing outside, but that legitimacy has now been lost, regardless of whether you live in a rural area or an urban area. I speak to many parents who say that they would like to let their children out, but they feel as though they would be regarded as bad parents because their children would not be engaged in some gainful activity that could lead to a qualification or that their play is not purposeful enough."⁸⁹

138. Mae'r Pwyllgor yn credu bod chwarae yn un o'r gweithgareddau gorau y gall plant gymryd rhan ynddynt. Mae'n eu dysgu i wthio ffiniau a chyfyngiadau eu gallu mewn amgylchedd y gallant ei reoli. Mae plant yn dysgu i ryngweithio ag eraill a chyda'r byd o'u hamgylch. Yn wir,

⁸⁷ Ymateb ysgrifenedig SP18 i'r ymgynghoriad : Cymdeithas Chwarae Gogledd-ddwyrain Cymru, tudalen 3

⁸⁸ Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2010, paragraff 238

⁸⁹ Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2010, paragraff 103

mae'r 'Cyfnod Sylfaen' sydd wedi'i seilio ar chwarae sy'n cael ei ddarparu mewn ysgolion ledled Cymru yn dangos bod dysgu ar sail chwarae yn creu nifer o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc.

139. Crynhodd y Comisiynydd Plant y ddadl dros ddilysder chwarae a'n hymagwedd tuag ato drwy ddweud:

"People have to make judgements about risk and about whether they should bring their chicks home because it is getting late, and I would not criticise people for doing that, but there is something about our attitudes towards children and young people for which the commissioner, the Welsh Government, you and others can take some responsibility. It is about trying to create a culture in this society that values children as rights holders, respects them as human beings and wants to see them having a damn good time. Every one of us has had a childhood and we are still defined by the experiences of our childhood."⁹⁰

140. Mae'r pryderon a fynegwyd gan dystion yn yr ymchwiliad hwn ynghylch canfyddiadau negyddol oedolion tuag at y plant yn ein cymdeithas yn adlewyrchu'r pryderon a fynegwyd yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yn ei sylwadau cloi yn dilyn trafodaeth ar yr adroddiad gan Lywodraeth y DU i'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, nododd y Pwyllgor:

"The Committee is also concerned at the general climate of intolerance and negative public attitudes towards children, especially adolescents, which appears to exist in the State party, including in the media, and may be often the underlying cause of further infringements of their rights."⁹¹

141. Er nad oedd pryder Pwyllgor y CU yn berthnasol i Gymru'n unig, mae'n amlwg bod gennym lawer o le i wella os ydym am werthfawrogi plant mewn gwirionedd fel unigolion â hawliau ac aelodau pwysig o'n cymdeithas.

⁹⁰ Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2010, paragraff 244

⁹¹ Y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn: sesiwn 49: ystyried yr adroddiadau a gyflwynwyd gan bleidiau'r taliaethau o dan erthygl 44 o'r confensiwn: sylwadau cloi: Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, paragraff 24

142. Fel y nododd Pwyllgor y CU, mae'r cyfryngau yn chwarae rhan yn y ffordd y mae plant a phobl ifanc yn cael eu demoneiddio. Dywedodd Fairbridge Cymru wrth y Pwyllgor:

“Hanging out on street corners, around shops or in parks has been an activity enjoyed by many young people for generations yet in recent years a largely media led campaign has sought to demonise this behaviour and criminalise the young people. We have all seen the *Ban the Hoody* and the *Reclaim our Streets* headlines focused solely on removing young people from congregating and hanging out on streets. Yet very little evidence is presented that the young people targeted and ostracised by the campaigns have a history of offending or any intention of committing anti-social behaviour.”⁹²

143. Mae ymgyrchoedd o'r fath yn mynd yn groes i hawliau plant o dan Gofensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac Erthygl 31 yn benodol, sy'n nodi:

“States Parties recognise the right of the child to rest and leisure, to engage in play and recreational activities appropriate to the age of the child”

144. Felly, mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog y cyfryngau yng Nghymru i gyflwyno darlun mwy cytbwys o bobl ifanc yn eu cyhoeddiadau.

145. Fel y trafodwyd eisoes, mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth sy'n dangos y gall gwaith rhwng y cenedlaethau helpu i adeiladu pontydd rhyngddynt, ond bod y gwaith yng Nghymru'n cael ei siapio gan y genhedlaeth hŷn. O gofio'r hinsawdd gyffredinol o anoddefgarwch mewn perthynas â phlant, a phobl ifanc yn eu harddegau yn benodol, a'r agweddau cyhoeddus negyddol tuag atynt, a nodwyd gan y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn ac eraill, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn hanfodol ailffocysu'r gwaith rhwng y cenedlaethau er mwyn ystyried barn plant a phobl ifanc ynghyd â barn y genhedlaeth hŷn, fel y nodwyd yn argymhelliad 14 uchod.

146. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod na fydd unrhyw ymdrech i newid agweddau un rhan o'r gymdeithas tuag at ran arall yn hawdd, ond

⁹² Ymateb ysgrifenedig SP21 i'r ymgynghoriad, Fairbridge Cymru

mae'n teimlo y gall argymhellion eraill yn yr adroddiad hwn fynd rhan o'r ffordd tuag at ddylanwadu ar agweddau o'r fath. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn ailddatgan y gall Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac eraill wneud mwy i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu gweld fel aelodau gwerthfawr o'n cymdeithas sydd â hawl i fod yn rhan o'n cymunedau ac sydd â barn ddilys ar y materion sy'n effeithio arnynt.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n adolygu sut y gellir cynnwys gwaith rhwng y cenedlaethau yn y cwricwlwm ar gyfer ysgolion, er mwyn gwneud y mwyaf o'r rhyngweithio rhwng y cenedlaethau mewn ffordd gadarnhaol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cynnal pedair uwchgynhadledd ranbarthol ar gyfer y cyfryngau a ddylai geisio chwalu'r mythau ymysg y cyfryngau ynghylch plant a phobl ifanc ac a ddylai ddangos yr effaith negyddol y mae storïau newyddion negyddol ynghylch plant a phobl ifanc yn ei gael ar yr holl gymuned. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU i archwilio buddiannau cynnal uwchgynadledau tebyg ar gyfer y cyfryngau ledled y DU.

Bwlio

147. Cyfeiriodd y rheini a lenwodd holiadur y Pwyllgor at fwlio fel rhywbeth a oedd yn eu hatal rhag chwarae neu gymdeithasu. Dywedodd rhai fod cael pobl eraill yn galw enwau arnynt wedi gwneud iddynt deimlo'n anniogel, tra'r oedd un ymatebydd yn ofni y byddai pobl sy'n ei gasáu yn ei daro. Awgrymodd ymatebydd arall fod pobl a oedd yn ei bryfocio yn yr ysgol yn gwneud hynny y tu allan i'r ysgol hefyd ac roedd hynny wedi gwneud iddo deimlo'n anniogel. Disgrifiodd tua 43 y cant o'r ymatebwyr fan diogel i chwarae neu gymdeithasu fel rhywle sydd â gweithgareddau chwarae wedi'u trefnu neu sydd o dan oruchwyliaeth oedolion.

148. Yn yr un modd, dywedodd pobl ifanc o'r Ddraig Ffynci wrth y Pwyllgor eu bod yn awyddus i gael oedolion yn goruchwyllo manau chwarae. Roeddent yn teimlo y gallai parciau fod yn diriogaethol iawn ar gyfer pobl ifanc. Awgrymwyd hefyd bod llai o fwlio os oes oedolion o gwmpas. Roeddent yn cydnabod y gall pobl ifanc fod yn fwy parod i ymddiried yn eu cyfoedion ac felly roeddent yn awgrymu y gellir

hyfforddi pobl ifanc i oruchwylio ac i fod yn fodelau rôl gwrth-fwlio i blant iau.⁹³

149. Roedd y Pwyllgor wedi synnu i glywed bod pobl ifanc am gael oedolion yn eu goruchwylio wrth iddynt chwarae neu gymdeithasu, ac roedd yn pryderu nad yw plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel os nad oes oedolion yn bresennol.

150. Roedd y dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor gan dystion eraill hefyd yn awgrymu bod bwlio y tu allan i'r ysgol yn fater y mae angen mynd i'r afael ag ef. Pan ofynnwyd i Grŵp Gweithredu Ieuenctid y Rhyl os byddai'r bobl ifanc y mae'n gweithio gyda hwy yn croesawu goruchwyliaeth gan oedolion i leihau bwlio, dywedodd:

“Yes, 100 per cent. Even when our facilities are closed, young people will come into our building to seek refuge with our staff and talk to them about any bullying that is going on. One problem is what happens to young people when they are away from our supervision, when, inevitably, they are on the streets, on their own or with friends; that is what needs to be looked at and perhaps addressed with some sort of support system.”⁹⁴

151. Dywedodd Plant yng Nghymru wrth y Pwyllgor fod bwlio wedi bod yn fater allweddol i blant a phobl ifanc anabl erioed.⁹⁵ Dywedodd un ymatebydd i holiadur y Pwyllgor, merch 14 oed anabl, fod y ffaith bod pobl eraill yn galw enwau arni yn ei hatal rhag mynd allan i chwarae neu gymdeithasu.

152. O gofio natur benodol y bwlio sydd wedi'i gyfeirio at blant a phobl ifanc anabl, byddai'r Pwyllgor yn croesawu adolygiad o bolisiau Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

153. Mynegodd rhai dystion bryderon ynghylch bwlio mewn mannau chwarae. Dywedodd Barnardo's Cymru wrth y Pwyllgor y dylai gweithwyr chwarae ymyrryd i atal y bwlio:

“It is interfering with children's play, but if children's play is detrimental to another child, I do not think that adults should stand by and let it happen. We would not stand by and let it

⁹³ CYP(3) AWE 04 – Y Ddraig Ffyni yn dilyn sesiwn tystiolaeth lafar ar 23 Chwefror

⁹⁴ Cofnod y Trafodion, 22 Mawrth 2010, paragraff 105

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, 27 Ebrill 2010, paragraff 158

happen in our workplaces, and we do not stand by and let it happen in the school ground. I know that that is a philosophy within playwork, but it would be interesting to know what the child's perspective is of his or her experiences in that play situation. I think that children would request adults to interfere... within play and leisure settings, we feel strongly that bullying needs to be addressed."⁹⁶

154. Dywedodd Pete Duncan o Co-Train:

"We have something called SLAR – stop, look and reflect before you act. The philosophy of playwork is that play is principle – it is about letting children play, and play out whatever they are trying to do. People would not jump in and say 'that's dangerous – stop, stop'. They would weigh up what was happening, reflect and watch the process continue.

"I am aware through feedback about some miss-interpretation of the reflective practice as non-intervention."⁹⁷

155. O gofio'r sylwadau gan blant a phobl ifanc eu bod yn croesawu chwarae o dan oruchwyliaeth, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod hyfforddiant ar gyfer gweithwyr chwarae yn cael ei gamddeall, sy'n arwain at ddiffyg ymyrryd pan fydd pobl yn cael eu bwlio. Mae'r Pwyllgor yn galw ar y Gweinidog i ymchwilio i sut mae hyfforddiant ar gyfer gweithwyr chwarae'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd ac i ystyried sut y gall sicrhau na fydd mwy o gamddeall.

156. Er bod goruchwyliaeth yn rhywbeth cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc sydd angen cefnogaeth, awgrymodd Grŵp Gweithredu Ieuentid y Rhyl nad yw'n bosibl ei ddarparu ar bob achlysur. Dywedodd:

Mr Owen: One problem is what happens to young people when they are away from our supervision, when, inevitably, they are on the streets, on their own or with friends; that is what needs to be looked at and perhaps addressed with some sort of support system

⁹⁶ Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2010, paragraff 152- 154

⁹⁷ CYP(3) -08-10 (p2) Ymchwiliad i fannau diogel i chwarae – Co-train, tudalen 2

“Eleanor Burnham: Would helping people with assertiveness and how to deal with issues when they are on the streets be on benefit?

“Mr Owen: Yes, so that they can manage the problem themselves. We can mostly deal with the issue, and control it, when young people are at our facilities, but they are most vulnerable when they are on their own; that support, however it is formed, needs to be there.”⁹⁸

157. Mae'r Heddlu hefyd yn cydnabod bod cefnogaeth ar gyfer unigolion sy'n cael eu bwlio y tu allan i'r ysgol yn bwysig. Dywedodd Mr Morris, Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu De Cymru, wrth y Pwyllgor:

“Another issue for us is bullying outside the school. We tend to find that bullying that started inside the school then starts to happen outside, which becomes more dangerous, particularly for the victims, especially as it can't be dealt with in a closed environment like the school. So it is about how we pick up those issues and join them together. In Swansea, for example, the education, youth and lifelong learning services are working with the police to try to identify people who are bullying others inside and outside school and looking at what can be done about that. That is about joining up different silo services to identify the bullies and victims.”⁹⁹

158. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod na fyddai pob plentyn a pherson ifanc yn croesawu cyfleoedd chwarae o dan oruchwyliaeth, mae'r Pwyllgor yn credu bod sicrhau bod cyfleoedd o'r fath ar gael yn agwedd bwysig ar y portffolio o'r cyfleoedd hamdden a ddarperir mewn ardal.

159. Er bod gweithwyr chwarae mewn sefyllfa ddelfrydol i ddarparu goruchwyliaeth o'r fath, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn rhesymol bod pobl eraill sy'n gweithio gyda phlant mewn lleoliad chwarae yn cael eu hyfforddi i fod yn oruchwylwyr.

160. Mae tystiolaeth gan Gymdeithas Chwarae Gogledd-ddwyrain Cymru yn nodi'r hyn a ganlyn:

⁹⁸ Cofnod y Trafodion, 22 Mawrth 2010, paragraffau 105 - 107

⁹⁹ Cofnod y Trafodion, 11 Mai 2010, paragraff 192

“Certain teachers, police and park rangers work with children and young people on a regular [basis] but often do not recognise some behaviours as play behaviours ... To support children to play freely, all individuals who work alongside children and young people in society need to be aware and need to develop an understanding of children and young people’s invitations and signals to play (their play cue).”¹⁰⁰

161. Byddai gwybod bod ceidwaid parc, er enghraifft, yn cael eu hyfforddi i weithio gyda phlant a phobl ifanc a’u bod ar gael i gefnogi unigolion sy’n cael eu bwlio pan fyddant yn chwarae neu’n cymdeithasu yn mynd rhywfaint o’r ffordd tuag at roi sicrwydd i bobl ifanc a’u rhieni.

162. Awgrymodd Barnardo’s Cymru y dylid defnyddio lleoliadau diogel ar gyfer plant, gan ddweud:

“It would be helpful if safeguarding was taken to a community level with adults running PACT groups, Neighbourhood Watch, community centre volunteers and local shopkeepers being aware of how to spot bullying and establishing local ‘safe points’ (for example local shop, community centre) for children to go to if they’re scared about a stranger or lost in a community. Local safe points may reduce parents and children and young people’s fears.”¹⁰¹

Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru’n cynnal adolygiad sy’n canolbwyntio ar yr ymagweddau a’r dulliau y gellir eu rhoi ar waith i leihau’r achosion o fwlio y tu allan i’r ysgol, ac i gefnogi’r rheini sy’n cael eu bwlio. Dylai adolygiad o’r fath dalu sylw penodol i blant a phobl ifanc anabl sy’n cael eu bwlio. Mae’r Pwyllgor hefyd yn galw ar Lywodreth Cymru i gadarnhau’r amserlen ar gyfer cyhoeddi ei chanllawiau gwrth-fwlio, y bwriadwyd eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2009.

Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru’n cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn darparu cyfleoedd chwarae o dan oruchwyliaeth ar gyfer plant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau. Dylid ystyried hyfforddiant ar gyfer goruchwylwyr chwarae hefyd i gael gwared ar unrhyw

¹⁰⁰ Ymateb ysgrifenedig SP18 i’r ymgynghoriad : Cymdeithas Chwarae Gogledd-ddwyrain Cymru, tudalen 15

¹⁰¹ Ymateb ysgrifenedig SP05 i’r ymgynghoriad : Barnardo’s Cymru, tudalen 9

gamddealltwriaeth ynghylch arferion myfyriol allai olygu diffyg gweithredu yn erbyn bwlio mewn lleoliadau chwarae.

Trafnidiaeth

163. Dywedodd nifer o'r tystion wrth y Pwyllgor mai diffyg trafndiaeth gyhoeddus yw'r prif rwystr i ddefnyddio mannau diogel i chwarae a chymdeithasu. Dywedodd y Comisiynydd Plant, ac eraill, wrth y Pwyllgor fod rhai pobl ifanc yn gorfod teithio am 2.5 awr (un ffordd) i'w sinema leol ar drafnidiaeth gyhoeddus, a fyddai'n costio £5.50 yr un iddynt.¹⁰²

164. Dywedodd staff Canolfan Teulu Integredig Gronant, yng ngogledd Cymru, wrth y Pwyllgor fod trafndiaeth yn yr ardal yn broblem, nid yn unig i blant a phobl ifanc sydd am ddefnyddio cyfleusterau chwarae, ond i bobl hŷn hefyd y mae arnynt angen defnyddio gwasanaethau cyhoeddus fel gofal iechyd.¹⁰³

165. Dywedodd pobl ifanc o'r Ddraig Ffyni wrth y Pwyllgor fod plant 15 oed neu hŷn yn gorfod talu prisiau oedolion ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yn gwneud y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig yn fwy o broblem i'r bobl ifanc hynny nad ydynt yn gallu fforddio pris y tocynnau i oedolion.¹⁰⁴

166. Cyfeiriodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at gynllun peilot Llywodraeth Cymru i ddarparu tocynnau hanner pris i unigolion rhwng 16 a 18 oed ym Mhen-y-bont ar Ogwr a gogledd-ddwyrain Cymru. Nododd:

“The WLGA recognises the importance of transport enabling children and young people to access play provision and would welcome a re-examination of the idea of concessionary fares for young people.”¹⁰⁵

167. Fodd bynnag, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor:

¹⁰² Ymateb SP4 i'r ymgynghoriad, Comisiynydd Plant Cymru, tudalen 6

¹⁰³ Nodyn ar yr ymweliad rapporteur â Chanolfan Teulu Integredig Gronant, 22 Mawrth 2010

¹⁰⁴ CYP(3) AWE 04 – Y Ddraig Ffyni yn dilyn sesiwn dystiolaeth lafar ar 23 Chwefror

¹⁰⁵ Ymateb SP15 i'r ymgynghoriad, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, paragraff 26

“The Welsh Assembly Government piloted a 50% concessionary scheme for young people aged 16-18 years of age in Bridgend and North East Wales - it has now finished. The scheme was welcomed by all participants. However, the cost of rolling out the scheme across Wales is unaffordable in the current financial climate.”¹⁰⁶

168. Aeth y Dirprwy Weinidog ymlaen i ddweud:

“There is a structural problem in how Wales organises its public transport system. My personal view is that while we continue with the current regulatory setup, particularly in relation to busses, we will never be able to do anything other than ameliorate this problem”¹⁰⁷

169. Mae'r Pwyllgor yn credu bod trafndiaeth yn fater allweddol mewn perthynas â darparu mannau diogel i chwarae a chymdeithasu. Heb ddarpariaeth ddigonol o drafnidiaeth gyhoeddus, bydd pobl ifanc yn parhau i gael eu hatal rhag manteisio ar y cyfleoedd a fyddai ar gael iddynt fel arall. Byddai darparu trafndiaeth gyhoeddus addas hefyd o fudd i aelodau eraill o'r gymuned, yn enwedig pobl hŷn.

170. Mae'r Pwyllgor yn teimlo y dylai prisiau rhatach ar gyfer pobl ifanc fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru i helpu plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r cyfleusterau hamdden yn eu hardal ehangach, yn ogystal â manteisio ar gyfleoedd addysgol a hyfforddiant.

171. Dylid gwella'r drafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru. Teimlai'r Dirprwy Weinidog fod gan drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru broblemau strwythurol y mae angen mynd i'r afael â nhw. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried materion o'r fath ymhellach ond, yn y cyfamser, mae angen gwneud gwelliannau i'r system bresennol. Er enghraifft, dylid ailasesu'r ddarpariaeth o drafnidiaeth gymunedol yng ngoleuni anghenion plant a phobl ifanc.

172. Dywedodd Sgowtiaid Cymru wrth y Pwyllgor:

¹⁰⁶ CYP(3)-09-10 : Papur 2 : Mannau diogel i chwarae a chymdeithasu : tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol gan y Dirprwy Weinidog dros Blant

¹⁰⁷ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraff 163

“It does not matter whether it is to do with the scouts, guides, karate, football, rugby or whatever, if children and young people do not have the ability to get from A to B, then they cannot go, which is sad. Some schools run afterschool clubs and football and rugby and so on after school, which means that school buses must be re-jigged, but, sometimes, they cannot be re-jigged and therefore those children cannot take part in the after-school clubs.”¹⁰⁸

173. Awgrymodd Cyngor Chwaraeon Cymru nad oedd pawb yn gallu defnyddio clybiau ar ôl yr ysgol oherwydd nad oes gan deulu pawb gar ac felly nid ydynt yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau o’r fath.”¹⁰⁹

174. Roedd y Pwyllgor yn siomedig i glywed bod rhai disgyblion yn colli allan ar weithgareddau allgyrsiol oherwydd nad oedd cludiant ar gael o’r ysgol ar ddiwedd y gweithgareddau.

175. Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod Ysgol Ardudwy yn Harlech wedi cymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod ei disgyblion yn gallu defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar adegau addas er mwyn caniatáu iddynt deithio yn ôl ac ymlaen i’r ysgol ar y trê. Ar ôl cynnal trafodaethau â Threnau Arriva Cymru am y problemau roedd rhai disgyblion yn eu hwynebu, gwnaeth yr ysgol addasiadau i amseroedd y diwrnod ysgol a gwnaeth Trenau Arriva Cymru addasiadau i’w amserlenni yntau. Roedd y newidiadau hyn, ymysg eraill, yn golygu bod trenau ar gael cyn yr ysgol ac ar ôl yr ysgol, ac ar ôl gweithgareddau allgyrsiol. Bellach, gall y plant fynd i amrywiaeth o weithgareddau a gaiff eu cynnal gan yr ysgol y tu allan i oriau arferol.¹¹⁰

176. Mewn ysgolion lle mae cyfran uchel o’r disgyblion yn defnyddio cludiant ysgol, byddai’n rhesymol sicrhau bod amseru’r cludiant yn ddigon hyblyg i alluogi plant a phobl ifanc i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael. Lle nad yw hynny’n bosibl, dylid annog penaethiaid i ailstrwythuro’r diwrnod ysgol i alluogi gweithgareddau allgyrsiol i gael eu cynnal ar adegau sy’n addas i’r holl ddisgyblion, er enghraifft yn ysgod amser cinio wedi’i ymestyn.

¹⁰⁸ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraff 44

¹⁰⁹ Ymateb ysgrifenedig SP16 i’r ymgynghoriad, Cyngor Chwaraeon Cymru, paragraff 8

¹¹⁰ CYP(3)-14-10 – papur 7 – Gwybodaeth ychwanegol gan Ysgol Ardudwy, Harlech, yn ymwneud â Mannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n blaenoriaethu'r ddarpariaeth o brisiau rhatach ar drafndiaeth gyhoeddus ar gyfer unigolion rhwng 16 a 18 oed i'w galluogi i ddefnyddio cyfleusterau hamdden yn ogystal â manteisio ar y cyfleoedd addysgol a hyfforddiant yn eu hardal ehangach.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ailasesu'r system drafndiaeth gyhoeddus bresennol yn erbyn anghenion plant a phobl ifanc, ynghyd ag anghenion defnyddwyr eraill. Os bydd yr ailasesiad yn amlygu problemau systemig yn y ddarpariaeth o drafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru, yna dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau pellach i sicrhau bod y materion hynny'n cael eu datrys.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau nad yw disgyblion yn cael eu hallgáu o weithgareddau allgyrsiol oherwydd anawsterau sy'n gysylltiedig â sicrhau cludiant gartref ar ddiwedd y dydd.

Mynd i'r afael ag anghenion chwarae grwpiau penodol o blant a phobl ifanc

Plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig

177. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig wedi'u hynysu'n fwy na'u cyfoedion oherwydd bod diffyg mannau i chwarae a chymdeithasu yn agos at eu cartrefi, a bod diffyg cludiant i ardaloedd mwy trefol sydd o bosibl â chyfleusterau hamdden gwell. Dywedodd pobl ifanc o'r Ddraig Ffyni wrth y Pwyllgor fod diffyg palmentydd mewn ardaloedd gwledig yn gallu ei gwneud yn anodd i bobl ifanc deithio pellteroedd byr hyd yn oed.¹¹¹ Mae darpariaeth wael a chost trafndiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn gwneud y sefyllfa'n waeth, fel y tystiodd y Ganolfan Teulu yng Ngronant,¹¹² ymysg eraill.

178. Dywedodd Plant yng Nghymru wrth y Pwyllgor fod trafndiaeth gyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru yn hanfodol oherwydd bod rhai

¹¹¹ Tystiolaeth fideo SP 17 : Y Ddraig Ffyni

¹¹² CYP(3) AWE 10 : Nodyn Aelodau'r Pwyllgor ar yr ymweliadau rapporteur

pobl ifanc yn byw 25 i 30 milltir i ffwrdd o'r sinema neu'r pwll nofio agosaf.¹¹³

179. Dylai'r sylwadau a'r argymhellion o dan yr adran 'trafnidiaeth' yn yr adroddiad hwn fynd rhywfaint o'r ffordd tuag at liniaru'r pryderon ynghylch trafndiaeth.

180. Trafododd y Dirprwy Weinidog y defnydd o waith ieuenctid symudol â'r Pwyllgor fel ffordd o ddarparu cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru:

"A great deal of investment has gone into mobile youth work in rural areas over the last few years. I believe that we are talking about £5.5 million in terms of revenue and £9 million in terms of capital, thus far."¹¹⁴

181. Ym mis Mehefin 2010, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor fod ei swyddogion yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i gasglu gwybodaeth am effeithiolrwydd y ddarpariaeth chwarae symudol ar gyfer pobl ifanc. Dywedodd hefyd:

"For the first time, we shall have robust information that will allow us to measure what kind of outcomes and impact have been made by that investment."¹¹⁵

182. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at yr adroddiad 'Ardaloedd Gwledig Anghysbell', a gyhoeddwyd ar 15 Rhagfyr 2009, ac:

"Mae'r dystiolaeth ynddo yn sail i Lywodraeth Cynulliad Cymru fynd ati i helpu cymunedau anghysbell i fanteisio ar wasanaethau gwell ac ymdopi â materion pob dydd. Bydd yr adroddiad yn help i nodi'r blaenoriaethau ar gyfer ardaloedd gwledig ehangach yng Nghymru ac i bennu cyfeiriad polisiau a rhaglenni'r dyfodol o ran cymunedau gwledig."¹¹⁶

183. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffocws hwn ar y materion sy'n effeithio ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig iawn yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at weld Llywodraeth Cymru yn cynnwys

¹¹³ Cofnod y Trafodion, 27 Ebrill 2010, paragraff 177

¹¹⁴ Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2010, paragraff 26

¹¹⁵ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraff 167

¹¹⁶ CYP(3)-09-10 : Papur 2

plant a phobl ifanc yn natblygiad y polisïau hyn, ac yn ystyried eu hanghenion ar y cyd ag anghenion pobl eraill mewn cymunedau gwledig iawn.

184. Mynegodd rhai tystion bryderon hefyd ynghylch cost y cyfleusterau hamdden ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Er y trafodir cost yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, mae'n werth ystyried materion cost yng nghyd-destun plant a phobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru. Dywedodd Barnardo's wrth y Pwyllgor:

"In many parts of Wales there are fantastic outdoor activities that tourists come to enjoy, but often children and young people living in those areas cannot enjoy these natural resources (eg. Surfing, rock climbing, hill walking) as the activities cost too much to do and there's no transport to them."¹¹⁷

185. Dywedodd clwb ieuencid Iwth Pen yn Nyffryn Nantlle, gogledd Cymru, fod y sefyllfa hon yn bodoli yn ei ardal. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

"Dim Cyfle Dyffryn Nantlle, a local group of mothers, who had set up the group to offer young people opportunities in the area, applied and received money from the Rank Foundation to fund a project called 'Climbing the Walls'. This is a project where 5 local women were to train as outdoor instructors in order to gain employment and encourage local young people to take part in outdoor activities ... Over the past year young people have had a series of opportunities to try new things, either in half day sessions, full days and a weekend away. They have been, kayaking: gorge walking: climbing: abseiling: coasteering: Snowdon climb: mountain biking. The aim is now to try and get some of the young people following accredited course in the activities of their choice."¹¹⁸

186. Mae'r clwb yn ymwybodol iawn bod cost yn rhwystr i nifer o bobl ifanc ac mae wedi creu ei strwythur prisiau fel ei fod yn gynhwysol:

"The main barrier to attend is cost. We do not charge an entry fee or charge anything for young people to do anything. We do not arrange any trips where some can afford to go and others

¹¹⁷ Ymateb ysgrifenedig SP5 i'r ymgynghoriad : Barnardo's Cymru, tudalen 3

¹¹⁸ Ymateb ysgrifenedig SP24 i'r ymgynghoriad : Iwth Pen

cannot. When we offer young people trips away, even for the weekend, we only ask £2 towards transport.”¹¹⁹

187. Awgrymodd Barnardo’s y gellir gwneud gweithgareddau o’r fath yn fwy hygyrch i bobl ifanc drwy ddefnyddio cludiant preifat a chynllun talebau:

“There are two separate issues here. The first is transport, or access. Transport is particularly problematic for rural areas. Many of the outdoor pursuits providers have their own minibuses, and I do not see why there could not be some community use of those to get to beaches or to do rock climbing. That would be something new, so it might need planning and consideration. The second issue is the cost. I do not see why there could not be a local voucher scheme. For example – and this is in a different sphere but it addresses a similar problem – during the Edinburgh festival, there is a local voucher scheme or a subsidy so that residents who could not otherwise access drama events can get to enjoy the activity in their area.”¹²⁰

188. Mae’r Pwyllgor yn diolch i’r grwpiau fel Iwth Pen am eu hymdrechion i ddarparu gweithgareddau mor amrywiol ar gyfer yr holl bobl ifanc yn eu hardaloedd. Bwriedir i argymhellion eraill yn yr adroddiad hwn leihau’r pwysau y mae grwpiau’n ei wynebu wrth ddarparu manau diogel i chwarae a chymdeithasu mewn ardaloedd gwledig.

Plant anabl

189. Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor fod chwarae cynhwysol yn bwysig o ran datblygiad plant anabl a phlant nad ydynt yn anabl wrth iddynt ddysgu i chwarae â’i gilydd. Dywedodd Plant yng Nghymru:

“What comes through from their evaluation by the National Childminding Association, Wales Pre-school Playgroups Association and Mudiad Ysgolion Meithrin is that, where families are able to be integrated into a mainstream play setting or

¹¹⁹ *ibid*

¹²⁰ Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2010, paragraff 86

childcare setting at a very early age, it gives the child confidence to mix.”¹²¹

190. Fodd bynnag, dywedodd rhiant sydd â phlentyn anabl wrth y Pwyllgor:

“Please don't push inclusion too much for disabled young people. It isn't always the answer, particularly when the disabilities involve severe learning and/or autism”¹²²

191. Yn yr un modd, dywedodd bachgen 9 oed anabl wrth y Pwyllgor fod yn well ganddo ddarpariaeth chwarae arbenigol gan nad yw'n sefyll allan ac mae'n teimlo y gall fwynhau ei hun pan na fydd pobl yn syllu arno ac yn gwneud sylwadau amdano.”¹²³

192. Awgrymodd Barnardo's Cymru nad yw integreiddio bob tro'n opsiwn deniadol i rieni plant anabl, a allai fod â phryderon ynghylch y gofal arbenigol sydd ar gael mewn lleoliadau chwarae integredig. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

“Many parents of disabled children do not send their children to generic provision because of concerns regarding 'open access' rules. Disabled children may need support to stay safe at play schemes and youth clubs and parents worry that open access rules mean their child will leave the scheme without support to do it safely.”¹²⁴

193. Mae'r Pwyllgor yn deall y gall rhieni plant anabl fod â phryderon penodol sy'n ychwanegol at y rheini y mae rhieni eraill yn eu hwynebu. Soniodd staff Canolfan Teulu Integredig Gronant yng ngogledd Cymru wrth y Pwyllgor am y cynllun “buddy” a sefydlodd yn ystod haf 2009, a oedd yn paru plant a phobl ifanc anabl â ‘buddies’ a oedd yn cynnig lefel ychwanegol o oruchwyliaeth ac yn cael gwared ar yr angen i gael gofalwr yn bresennol. Lluniwyd y cynllun i roi sicrwydd i rieni y gall eu plant fod yn rhan o'r cynllun ac aros yn ddiogel.¹²⁵

194. Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r cynllun ‘buddy’, mae hefyd yn cydnabod nad yw cael ‘buddy’ yn lle gofalwr yn ddigon efallai i roi

¹²¹ Cofnod y Trafodion, 24 Ebrill 2010, paragraff 159

¹²² Ymateb i'r holiadur ar fannau diogel i chwarae a chymdeithasu

¹²³ Ymateb i'r holiadur ar fannau diogel i chwarae a chymdeithasu

¹²⁴ Ymateb SP05 i'r ymgynghoriad, Barnardo's Cymru, tudalen 4

¹²⁵ CYP(3) AWE 10 : Nodyn ar ymweliadau rapporteur Aelodau'r Pwyllgor

sicrwydd i rai plant anabl a'u rheini y byddant yn cael y lefel briodol o ofal.

195. Fodd bynnag, awgrymodd Comisiynydd Plant Cymru fod rhieni a gofalwyr sy'n or-warchodol o bosibl, mewn rhai achosion, yn rhwystro plant anabl rhag chwarae. Dywedodd:

"I have spoken with children in wheelchairs who would really like the ability to fall out of the wheelchair and crawl over to the slide. Now there is absolutely nothing wrong in that desire. Our innate sense, as adults, is almost immediately to pick that child up and put them back in the wheelchair. I have heard children saying 'I wish they would stop doing that'. They mean well, but they are cutting this opportunity away."¹²⁶

196. Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn bwysig bod rhieni yn cael cefnogaeth i fod yn ddigon hyderus i ganiatáu i'w plant fynd i'r afael â'u rhwystrau eu hunain drwy chwarae. Dylid cynnig cefnogaeth o'r fath i rieni plant a phobl ifanc anabl os caiff hynny ei amlygu fel rhywbeth sydd ei angen yn ystod asesiad o'u hanghenion fel gofalwyr.

197. Dywedodd Cymdeithas Chwarae Gogledd-ddwyrain Cymru:

"It is important to recognise that there is unlikely to be a 'one size fits all' solution to providing play opportunities for children with disabilities, due to the type and complexity of their disability can vary widely from one child to the next."¹²⁷

198. Roedd tystiolaeth gan Gweithredu dros Blant yn cytuno â'r farn hon. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

"Many children require 1:1 support to stay safe and to maximise their social inclusion and personal development, and old budgets have been designed for just 2:1 support. Action for Children is disappointed that the whole of the £21 million Aiming High consequential for Wales has not reached disabled children and their families."¹²⁸

¹²⁶ Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2010, paragraff 198

¹²⁷ Ymateb SP18 i'r ymgynghoriad, Cymdeithas Chwarae Gogledd-ddwyrain Cymru, tudalen 7

¹²⁸ Ymateb SP13 i'r ymgynghoriad, Gweithredu dros Blant, paragraff 4.2

199. Ar gyfer rhai plant a phobl ifanc anabl, mae'n rhaid i gyfleoedd chwarae lleol ddatblygu cryn dipyn i fod yn gynhwysol. Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru:

“The need for disabled children to have ‘equity of access to play and leisure services, including holiday play schemes, after school clubs and pre-school provision,’ is cited as a key action within the National Health Service Framework for Children. However, equity of access to play and leisure services is not yet a reality for many deaf children and young people.”¹²⁹

200. Mae'n ofyniad cyfreithiol bod adeiladau'n hygyrch, ond fel y nododd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, nid yw hynny'n wir ym mhob achos.

201. Mae'r Pwyllgor yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol barhau i geisio sicrhau bod cyfleoedd chwarae yn gwbl gynhwysol, ond ni ddylai darpariaeth o'r fath olygu nad oes darpariaeth arbenigol ar gael ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sydd am wneud defnydd ohoni. Yn wir, efallai fod angen cymysgedd o gyfleoedd chwarae integredig ac arbenigol ar gyfer rhai plant.

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i geisio sicrhau bod yr holl gyfleoedd chwarae prif ffrwd sydd ar gael yn gynhwysol, er y dylid sicrhau bod darpariaeth chwarae arbenigol ar gael hefyd i'r plant a'r bobl ifanc anabl sy'n gwneud cais amdano Wrth asesu anghenion gofalmwr plant a phobl ifanc anabl, dylid ystyried unrhyw gymorth y gallai fod ei angen ar ofalmwr i alluogi plant anabl i ddefnyddio'r cyfleoedd chwarae hyn.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau priodol i sicrhau bod y rhwymedigaethau statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol bod pob adeilad cyhoeddus newydd yng Nghymru yn gwbl hygyrch yn cael eu bodloni, a bod nodweddion hygyrch yn cael eu hôl-osod ym mhob adeilad cyhoeddus lle a phryd y mae hynny'n bosibl.

¹²⁹ Ymateb ysgrifenedig SP12 i'r ymgynghoriad: y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru

Plant a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd difreintiedig

202. Mae tystion wedi dweud wrth y Pwyllgor bod costau'n fater pwysig i blant a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd difreintiedig. Rhoddodd clwb ieuenctid Iwth Pen enghraifft benodol i'r Pwyllgor:

"I asked a young lad why he did not go to the other youth club and he said he could not go because it cost 50p. I said that that was not much money, but he told me that there were five children in the family and that £2.50 every night was more than his mother could afford."¹³⁰

203. Soniodd Grŵp Gweithredu Ieuenctid y Rhyl am broblem yn ei ardal:

"There is a specialist youth gymnasium on the promenade in Rhyl that none of the young people we work with can afford even though they are the ones who would probably benefit the most from going there and being able to access the facilities."¹³¹

204. Nododd Chwarae lawn:

"Funding is a massive barrier in all areas in which Play Right runs provision. Families on low income cannot afford to send their children to play clubs which charge. It is fundamental to a child's development that they get to play freely and socialise with their peers, it is our duty to make sure those children and young people from low income families do not suffer developmentally due to poverty. Play must not be provided exclusively for those who can afford it, it is a child's right."¹³²

205. Dywedodd Barnardo's Cymru wrth y Pwyllgor fod yr "amrywiaeth"¹³³ mewn strwythurau prisio ar draws yr awdurdodau lleol yn peri syndod. Roedd yr amrywiaeth hwn yn amlwg mewn tystiolaeth arall a roddwyd i'r ymchwiliad. Dywedodd un fam wrth y Pwyllgor fod ei mab, sy'n 14 oed, yn gorfod talu pris oedolyn i ddefnyddio canolfan sglefrio tymhorol yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, roedd gostyngiad pris ar gyfer myfyrwyr ar gael i'r rheini dros 16 oed. Roedd y pris uwch ar gyfer ei mab yn golygu nad oedd y teulu'n gallu defnyddio'r ganolfan sglefrio oherwydd nad oeddent yn gallu fforddio'r gost lawn.

¹³⁰ Cofnod y Trafodion, 22 Mawrth 2010, paragraff 131

¹³¹ Cofnod y Trafodion, 22 Mawrth 2010, paragraff 20

¹³² Ymateb SP19 i'r ymgynghoriad, Chwarae lawn, tudalen 9

¹³³ Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2010, paragraff 94

206. Cysylltodd dau blentyn â'r Pwyllgor hefyd i sôn am gynllun sy'n rhoi caniatâd i bobl sy'n byw neu'n gweithio mewn ardal awdurdod lleol ymweld â thir ei gastell am ddim. Yn anffodus, pan geisiodd ysgol y plant archebu ymweliad â'r castell, gwrthodwyd rhoi mynediad am ddim iddynt oherwydd nad oedd gan y plant y datganiadau banc, y biliau treth gyngor na'r slipiau cyflog i brofi eu bod yn gymwys. Dim ond oedolion allai gael gafael ar y dogfennau a oedd eu hangen i gael mynediad am ddim. Mae sefyllfa o'r fath yn wrthgynhyrchiol ac mae'n gostwng gwerth rhywbeth sy'n ymddangos fel cynllun cadarnhaol ar yr olwg gyntaf.

207. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor:

“On the one hand, it would seem obvious that, in low-income situations, free provision would be the immediate resolution to some of the problems, but the feedback that we get is that, in some instances, some kind of fee is useful in order to secure commitment and to ensure that whatever provision is available is not taken advantage of.”¹³⁴

208. Mae'n ymddangos i'r Pwyllgor nad yw codi tâl am weithgareddau i sicrhau ymrwymiad, yn hytrach nag i dalu am gostau na ellir eu hosgoi, yn helpu teuluoedd sy'n byw mewn tldi. Dywedodd y Gymdeithas wrth y Pwyllgor fod llawer iawn o sensitifrwydd o gwmpas y materion hyn ac, felly, os gwelir cost fel rhwystr neu os yw'r amgylchiadau yn atal pobl rhag cyfranogi, byddai'r gost yn cael ei hatal. Aeth ymlaen i egluro y gall y gweithiwr ieuenctid sy'n ymwybodol o amgylchiadau cyffredinol y teulu wneud y penderfyniadau hynny.¹³⁵

209. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu o hyd na fydd nifer o deuluoedd mewn gwirionedd yn gallu manteisio ar gyfleoedd chwarae neu hamdden os bydd angen talu ffi a'i fod yn anfforddiadwy. Efallai y bydd rhieni eraill yn caniatáu i'w plant fanteisio ar y cyfleoedd, ond oherwydd eu bod yn ofni'r stigma, ni fyddant yn datgelu eu hamgylchiadau ariannol i staff ac felly ni fyddant yn cael budd o gymorth dewisol o'r fath.

¹³⁴ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraff 122

¹³⁵ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraffau 122 - 126

210. Yn ogystal â'r argymhelliad a wneir isod, dylai'r sylwadau a'r argymhellion eraill a wneir yn yr adroddiad hwn fynd rhywfaint o'r ffordd tuag at leddfu rhai o'r pryderon hyn.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod strwythurau prisio awdurdodau lleol yn cael eu newid i ddarparu cyfleoedd chwarae a hamdden am ddim, lle y bo hynny'n bosibl. Dylid darparu tocynnau teulu hefyd, y mae eu prisiau'n adlewyrchu nifer yr oedolion, yn ogystal â nifer y plant, sydd mewn teulu.

Plant Sipsiwn-Teithwyr

211. Aeth Angela Burns, Aelod o'r Pwyllgor, ar ymweliad rapporteur i weld plant a phobl ifanc Sipsiwn-Teithwyr yn Sir Benfro. Dywedodd y plant a'r bobl ifanc wrth y Pwyllgor nad ydynt yn aml yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae wedi'u trefnu oherwydd y pellter o'u cartrefi. Dywedodd un bachgen ifanc wrth y Pwyllgor ei fod yn gorfod cerdded am tuag awr i gyrraedd y clwb ieuencid lleol.

212. Dywedodd merched Sipsiwn-Teithwyr wrth y Pwyllgor nad oedd ganddynt fawr o ryddid i fynd allan i chwarae. Nid oeddent yn cael mynychu gweithgareddau chwarae wedi'u trefnu yn aml, oni bai bod aelod o'r teulu neu ffrind agos yn aelod o staff yn y lleoliad. Nid oeddent yn cael crwydro oddi ar y safle oni bai eu bod gyda pherson ifanc hyn sy'n 16-17 oed. O ganlyniad, roeddent gan mwyaf yn chwarae yn eu cartrefi. Dywedodd rhai merched eu bod yn goruchwyllo gweithgareddau chwarae merched llawer iau, ond roedd cyfyngiadau o ran lle y gallai'r gweithgareddau ddigwydd. Dywedodd un ferch ifanc wrth y Pwyllgor na allai fynd â'i chwaer ieuengaf i'r man chwarae gerllaw bellach oherwydd roedd 'graffiti haerllug' wedi gwneud y lleoliad yn anaddas ar eu cyfer.

213. Dywedodd y bechgyn wrth y Pwyllgor fod ganddynt fwy o ryddid, ond eu bod yn teimlo o hyd bod lleoliad eu cartrefi yn cyfyngu ar y mannau diogel y gallant chwarae ynddynt a'u bod yn aml ond yn gallu gwneud ffrindiau â theithwyr eraill oherwydd eu bod wedi'u hynysu oddi wrth amgylchedd mwy amrywiol.

214. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod y teulu estynedig yn allweddol bwysig i'r grwpiau Sipsiwn-Teithwyr a bod plant a phobl ifanc o'r grwpiau hyn yn aml yn dueddol o gymdeithasu, yn yr ysgol a'r tu allan iddi, ag aelodau eu teulu agos neu eu grŵp diwyllianol. Nododd

adroddiad cyrff anllywodraethol Cymru, 'Aros, Edrych, Gwranddo - Sut mae Gwireddu Hawliau Plant yng Nghymru', a gyhoeddwyd yn 2007, fod plant Sipsiwn-Teithwyr yn aml yn wynebu hiliaeth ddifrifol, sy'n ei gwneud yn anos iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ymwybodol bod rhieni plant Sipsiwn-Teithwyr, fel grwpiau eraill o rieni, am warchod eu plant.

215. Er bod angen dybryd i ddeall anghenion plant a phobl ifanc Sipsiwn-Teithwyr yn well, cafwyd nifer o adroddiadau bod cyflwr llety a safleoedd rhai Sipsiwn-Teithwyr yn warthus.

216. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella safleoedd Sipsiwn-Teithwyr, fel y nodwyd yn 'Ar Lwybr Arall', yr ymgynghorodd arno ym mis Medi 2009.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried anghenion chwarae plant a phobl ifanc Sipsiwn-Teithwyr yn ei strategaeth ar gyfer Sipsiwn-Teithwyr. Dylid datblygu cynlluniau datblygu chwarae ar y cyd â phlant a phobl ifanc Sipsiwn-Teithwyr, a'u rhieni. Ar ben hynny, dylai canllawiau cynllunio a gyhoeddir mewn perthynas â datblygiadau safleoedd Sipsiwn-Teithwyr gynnwys gofyniad gorfodol i ddarparu cyfleoedd chwarae ar bob safle.

Rôl ysgolion

217. Yn olaf, cyfeiriodd Comisiynydd Plant Cymru, Chwarae Cymru, Barnardo's a Chyngor Chwaraeon Cymru (mewn tystiolaeth ysgrifenedig) at rôl bwysig ysgolion o bosibl wrth ddarparu manau diogel i chwarae a chymdeithasu ar y penwythnos a'r tu allan i oriau ysgol arferol.

218. Yn ei dystiolaeth, nododd Cyngor Chwaraeon Cymru:

“Schools can play a huge role in providing a safe, welcoming environment for children and young people to meet and play together. They can be hubs of activity all day and evening, everyday of the week, places where sports clubs are encouraged to run junior activity by incentives such as discounted facility rates. We need schools where a wide range of activities are provided at reasonable prices through schools working together with youth and leisure services; schools where transport is

linked to the provision of those activities; schools where young people are encouraged to come in and take part form a strong element of vibrant communities.”¹³⁶

219. Dywedodd plant a phobl ifanc Sipsiwn-Teithwyr wrth y Pwyllgor y byddent yn hapus i ddefnyddio cyfleusterau ysgolion fel cyfarpar celf a chwaraeon ar y penwythnosau ac yn ystod y gwyliau gan y byddai'n darparu man diogel iddynt gwrdd â ffrindiau nad ydynt yn gallu eu gweld fel arall y tu allan i oriau ysgol.

220. Fodd bynnag, dywedodd plant ifanc o'r Ddraig Ffyncei wrth y Pwyllgor y byddent yn amharod i dreulio eu hamser rhydd yn yr ysgol oherwydd eu bod eisoes yn treulio gymaint o amser yno.

221. Dywedodd y Gymdeithas Sgowntiaid wrth y Pwyllgor y byddai gallu defnyddio cyfleusterau ysgolion yn ddefnyddiol iawn. Dywedodd Mr Brownsill, y Comisiynydd Maes dros Dde a Gorllewin Cymru, wrth y Pwyllgor:

“Part of our development project is to try to build links with local schools, where we are either opening new scout groups or expanding existing provision. The biggest problem... is the cost of using a school and heating it properly and so on. In general, a school has to be heated in its entirety and you do not have zoned heating, except in more modern facilities. So, the cost of using the school has to be passed on, and it tends to be prohibitive. The other issue is whether the headteacher is willing to support scouting; some headteachers are not that keen on scouting, because, if they have scouting, they have to have guiding and this, that and the other. It does not pay them to do it, and so they just feel that they cannot afford to do it.”¹³⁷

222. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, mae Barnardo's yn amlinellu rhai o'r rhwystrau ymarferol i gael ysgolion i ddarparu eu cyfleusterau i bawb. Dywedodd:

“Schools face practical problems in gaining a community focus. Schools we have worked with have looked at opening their premises outside of school hours but faced very real difficulties. To an extent these difficulties will depend upon the communities

¹³⁶ Ymateb ysgrifenedig SP16 i'r ymgynghoriad, paragraff 35

¹³⁷ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraff 19

which the schools serve but in our experiences have included needles and broken bottles being left in yards, changes to insurance for damage when no caretaker is present, and a worry of vandalism (based upon previous experiences). When schools enable community members to enter the premises they have to consider child protection issues, employment issues and insurance. These can act as real barriers.”¹³⁸

223. Roedd y Gymdeithas Sgowntiaid yn cydnabod yr anawsterau y mae ysgolion yn eu hwynebu wrth agor eu cyfleusterau i'r gymuned, ond dywedodd wrth y Pwyllgor:

“If we cannot use the building it would be useful to be able to use the grounds, because often their grounds are nearer. It would be useful if we were able to use the grounds for scouts to get their sports badges or for meeting to do a nature project. If the school has an environmental area, it would be very helpful to be able to take the cubs and beavers there to do something for their nature badges.”¹³⁹

224. Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre yng ngogledd Cymru yn caniatáu i'r gymuned leol ddefnyddio ei thir. Dywedodd Roz Harrison, pennaeth yr ysgol, wrth y Pwyllgor, er bod yr ysgol wedi cael ei fandaleiddio i ddechrau o ganlyniad i'r polisi mynediad agored, nid oedd bellach yn cael unrhyw broblemau. Mae'r ysgol wedi gosod cyfarpar chwarae cadarn ar ei thir, ac wedi agor cae yr ysgol, sy'n darparu man diogel i blant chwarae y tu allan i oriau ysgol.

225. Fel y trafodwyd eisoes, mae'r Pwyllgor yn cydnabod na fydd bob plentyn neu berson ifanc am dreulio amser yn yr ysgol y tu allan i oriau ysgol ond, i rai, gallai adeiladau a thir ysgolion ddarparu man diogel a hygyrch i chwarae a chymdeithasu. O gofio'r problemau trafndiaeth y mae nifer o blant a phobl ifanc yn eu hwynebu, gallai caniatáu mwy o gymunedau i ddefnyddio ysgolion olygu bod cyfleusterau ar gael na fyddai ar gael i rai, o bosibl, fel arall.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad ar y rhan y mae ysgolion bro a'r holl ysgolion a gynhelir yn ei chwarae wrth gefnogi cyfleoedd chwarae a hamdden diogel,

¹³⁸ Ymateb ysgrifenedig SP05 i'r ymgynghoriad, Barnardo's Cymru, tudalen 12

¹³⁹ Cofnod y Trafodion, 15 Mehefin 2010, paragraff 20

gyda'r nod o fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd y gall ysgolion eu cynnig i gymunedau chwarae a chymdeithasu. Dylai'r adolygiad gynnwys ystyriaeth o'r materion sy'n ymwneud â safleoedd, cyllid, integreiddio â darpariaeth leol a modelau o arfer da gyda'r nod o fanteisio'n llawn ar y cyfle i rannu cyfleusterau.

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-cyp-home.htm>

19 Ionawr

Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog
dros Blant Llywodraeth Cymru

Chris Tweedale, Cyfarwyddwr -
Grŵp Plant, Pobl Ifanc ac
Effeithiolrwydd Ysgolion (PPIEY)

Martin Swain, Pennaeth Cangen
Rhaglenni Plant a Theuluoedd

Tanis Cunnick, Pennaeth Cangen
Strategaeth Gwaith Ieuenctid

Mike Greenaway, Cyfarwyddwr
Marianne Mannello, Dirprwy
Cyfarwyddwr Chwarae Cymru

Keith Towler, Comisiynydd Plant
Cymru Comisiynydd Plant Cymru

2 Chwefror

Vikki Butler, Uwch Swyddog
Ymchwil Polisi Barnardo's Cymru

Tim Ruscoe, Swyddog Datblygu,
Cyswllt y Cynulliad a
Chyfranogiad

23 Chwefror

Melanie Blake, Rheolwr Datblygu
Craidd Y Ddraig Ffyn-ci

Jessica Simmonds, y Ddraig
Ffynci Conwy

Victoria Madden, y Ddraig Ffynci
Merthyr

Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr
Dysgu Gydol Oes, Hamdden a
Gwybodaeth

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr
Cydraddoldeb a Chyfiawnder
Cymdeithasol

Huw Jones, Prif Weithredwr

Cyngor Chwaraeon Cymru

Anne Hamilton, Pennaeth
Datblygu Pobl a Rhaglenni

22 Mawrth

Shane Owen, Rheolwr Prosiectau

Grŵp Gweithredu Pobl Ifanc y Rhyl

Val Owen, Gwirfoddolwr i'r
Prosiect

Darparwyr Clwb Ieuenctid Iwth Pen

Mandy Davies, Gwirfoddolwr i'r
Prosiect

Jamie Digwood, Cyfarwyddwr
Pêl-droed Clwb Pêl-droed y Rhyl

Clwb Pêl-droed y Rhyl – Pêl-droed yn y
Gymuned

Lee Jones, Rheolwr Datblygu
Cymunedol, Pêl-droed yn y
Gymuned, y Rhyl

27 Ebrill

Catriona Williams, Prif Swyddog
Gweithredol

Plant yng Nghymru/Rhwydwaith Dileu
Tlodi Plant Cymru

Lynne Hill, Cyfarwyddwr Polisi

11 Mai

Anthony Metcalf, Rheolwr
Canolfan y Tîm

Fairbridge Cymru

Jonathan Bevan, Swyddog
Prosiect Adfywio

Merthyr Valleys Homes

Alexandra Allan, Cyfarwyddwr
Cymdogaethau Byw

Sustrans

Lee Waters, Cyfarwyddwr dros
Gymru, Sustrans

Dave Morris, Prif Gwnstabl
Cynorthwyol Heddlu De Cymru

Yr Heddlu

Martin Peters, Cynghorwr
Cymunedol, Langford, Neath
Eugene Dubens, Cydlynnydd
Cymunedau'n Gyntaf Caerau

Partneriaeth ar gyfer Gweithredu
Cymunedol

25 Mai

Alan Hatton-Yeo, Prif Weithredwr
Sefydliad Beth Johnson

Y Ganolfan Ymarfer Rhwng Cenedlaethau

Pete Duncan, Hyfforddwr a
Chyfarwyddwr CLADA

Co-train

Barbara Wilding, Aelod o
Bwyllgor Cymru ac Aelod o
Bwyllgor Teulu Iach y Loteri Fawr

Y Gronfa Loteri Fawr

Rob Roffe, Rheolwr Polisi

15 Mehefin

Jill Gloster, Prif Gomisiynydd
Cymru a'r Uwch Wirfoddolwr yng
Nghymru

Y Sgowtiaid

Simon Brownhill Field Y
Comisiynydd dros Dde a
Gorllewin Cymru

Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr
Dysgu Gydol Oes, Hamdden a
Gwybodaeth

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr
Cydraddoldeb a Chyfiawnder
Cymdeithasol

Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog Llywodraeth Cymru
dros Blant

Elin Gwynedd, Pennaeth yr Uned
Eirioli

Suzanne Chisholm, Pennaeth
Cangen Iawnderau a Hawiliad

Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y pobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-cyp-home/bus-committees-third-cyp-inquiry/cyp3_-inq-safe_places.htm

<i>Enw</i>	<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Cynghorydd Mike Whitby BNP		SP 01
Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Blant	Llywodraeth Cymru	SP 02 SP 02a AWE02
Mike Greenaway, Cyfarwyddwr	Chwarae Cymru	SP 03 AWE 01
Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru	Comisiynydd Plant Cymru	SP 04 AWE 03
Tim Ruscoe, Swyddog Datblygu, Assembly Liaison y Cynulliad a Chyfranogiad	Barnardo's Cymru	SP 05 AWE 13
Dave Morris, Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu De Cymru	Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu	SP 06
Heledd James, Rheolwr Datblygu Cenedlaethol Dros Dro	ContinYou Cymru	SP 07 SP 07a
Michelle Jones, Swyddog Gweithredol Rhanbarthol	Prosiect Isadeiledd Chwarae y 3 Sir	SP 08

Rhian Cook, Gweithiwr Cynnwys Plant a Phobl Ifanc	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Fynwy	SP 09
Jean Gregson, Swyddog Cefnogi Partneriaethau	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr	SP 10
Chris Southern	Re-create, Cymdeithas Gwasanaethau Chwarae Caerdydd a'r Fro	SP 11
Debbie Green Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd	Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar	SP 12 SP 12a
Vivienne Laing, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus	Gweithredu dros Blant	SP 13
Rob Roffe, Rheolwr Polisi	Y Gronfa Loteri Fawr	SP 14
Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	SP 15 AWE 05 AWE 11
Huw Jones, Prif Weithredwr	Cyngor Chwaraeon Cymru	SP 16
Melanie Blake, Rheolwr Datblygu Craidd	Y Ddraig Ffynici	SP 17
Mike Dessington, Swyddog Rhanbarthol Datblygu Chwarae	Chwarae Gogledd-orllewin Cymru	SP 18
Becky Cole, Swyddog Datblygu Chwarae Antur	Chwarae lawn	SP 19

Caryl Alban, Swyddog Chwarae	Partneriaeth Plant Caerfyrddin	SP 20
Anthony Metcalf, Rheolwr Canolfan y Tîm	Fairbridge Cymru	SP 21
Shane Owen, Rheolwr Prosiectau	Grŵp Gweithredu Pobl Ifanc y Rhyl	SP 22a SP 22b SP 22C AWE 06
Val Owen, Gwirfoddolwr i'r Prosiect	Darparwyr Clwb Ieuentid Iwth Pen	SP 23
Mandy Davies, Gwirfoddolwr i'r Prosiect		
Jamie Digwood – Cyfarwyddwr Pêl- droed Clwb Pêl-droed y Rhyl	Clwb Pêl-droed y Rhyl	SP 24
Sean O'Neill, Cyfarwyddwr Polisi	Plant yng Nghymru	SP 25 AWE 12
Yr Athro J R Sibert		SP 26
Jonathan Bevan, Swyddog Prosiect Adfywio	Merthyr Valley Homes	SP 27
Alexandra Allan, Cyfarwyddwr Cymunedau Byw	Sustrans	SP 28 AWE 07
Pete Duncan, Hyfforddwr a Chyfarwyddwr CLADA	Co-train	SP 29

Alan Hatton-Yeo, Prif Weithredwr Sefydliad Beth Johnson	Y Ganolfan Ymarfer Rhwng Cenedlaethau	SP 30 AWE 08, 08a
Jill Gloster, Prif Gomisiynydd Cymru a'r uwch wirfoddolwr yng Nghymru	Y Sgowtiaid	SP 31
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	Llywodraeth Cymru	AWE 09
Nodyn o ymweliadau gan Aelodau'r Pwyllgor	Cynulliad Cenedlaethol Cymru	AWE 10
Nodyn gan Ysgol Ardudwy Harlech		AWE 14